PAPUR BRO GENAU'R-GLYN, MELINDWR, TIRYMYNACH, TREFEURIG A'R BORTH

# y tincer

28t

85c | Rhif 482 | Hydref 2025



## Blodau'r Fynwent

t.9



## Eglwys St Ioan

t.6-7

## Llwyddiant gyda'r hwrdd

t.11






Iolo a Gethin ap Dafydd yn derbyn gwobr y Busnes Gorau Cyffredinol yn nigwyddiad Menter Aberystwyth am eu busnes Aberpoeth. Llongyfarchiadau mawr iddynt.

Llun: © Robert Hughes/Thrtyfive-Creative Studio




Llongyfarchiadau i Glenys Morgan, Penrhyn-coch, am ennill un o wobrau Menter Aberystwyth – Gwobr Paul James yn y categori Gwobr Ysbryd Cymunedol.



Dymuniadau gorau i Geraint Williams, Clos y Ceiliog, Llandre, sydd wedi ymddeol o'i waith yng Nghanolfan Ddosbarthu y Cyngor Llyfrau yn Llanbadarn ar ôl 48 o flynyddoedd. Gwelir ef yn y llun gydag Arwel Evans, rheolwr y Ganolfan Ddosbarthu a Helgard Krause, Prif Weithredwr.

# y tincer

**Sefydlwyd Medi 1977**
**Aelod o Fforwm Papurau Bro Ceredigion**

**ISSN 0963-925X**



**GOLYGYDD – Ceris Gruffudd**
Rhos Helyg, 23 Maesyrefail, Penrhyn-coch
☎ 828017 | YTincer@googlemail.com
**TEIPYDD – Iona Bailey**
**CYSODYDD – Elgan Griffiths** ☎ 07737 622034
**GADEIRYDD Y TINCER – Richard Owen**
31 Glan Ceulan, Penrhyn-coch ☎ 07939 652273
**IS-GADEIRYDD A THREFNYDD CYFEILLION – Bethan Bebb**
Penpistyll, Cwmbrwyno, Goginan ☎ 880228
**YSGRIFENNYDD – Lynwen Evans**, Llawr y Glyn, Lôn Glanfred, LlandreSY24 5BY
☎ 01970 822322
Ebost: levans100@btinternet.com
**TRYSORYDD – Hedydd Cunningham**
Tyddyn-Pen-y-Gaer, Llandre, Aberystwyth
☎ 07910 720422
hedyddcunningham@live.co.uk
**HYSBYSEBION – Cêt Morgan**
Fferm Glanfrêd, Lôn Glanfrêd, Llandre SY24 5BY
cetmorgan@icloud.com 07966 510195
**TASG Y TINCER – Anwen Pierce**
3 Brynmeillion, Bow Street, SY24 5BP
**ADOLYGIADAU LLYFRAU**
**Llinos Dafis**, Cedrwydd, Llandre
**TREFNYDD GWERTHIANT – Lila Piette**
Llys Hedd, Bow Street ☎ 820223

**TINCER TRWY'R POST –**
**Edryd ac Euros Evans**, 33 Maes Afallen
Bow Street

**ABER-FFRWD A CHWMRHEIDOL**
**Mrs Beti Daniel**
Glyn Rheidol ☎ 880 691
**Y BORTH – Esther Prytherch** ☎ 07968 593078
**BOW STREET**
**Mrs Mair Lewis**, 40 Maes Ceiro ☎ 828 102
**Anwen Pierce**, 3 Bryn Meillion ☎ 828 337
**Maria Owen**, Gerddi Gleision ☎ 822074
**CAPEL BANGOR / PEN-LLWYN**
**Heulwen Lewis**, Deiniol, Capel Bangor
☎ 880413 heulwenlewis@btinternet.com
**CAPEL MADOG, CEFN-LLWYD A CAPEL DEWI**
**Eirian Hughes**, Lluest Fach ☎ 880 335
**Elwyna Davies**, Tyncwm ☎ 880 275
**Dei Evans**, Fferm Fronfraith, Comins-coch
☎ 623 660
**DÔL-Y-BONT**
**Mrs Llinos Evans** – Dôlwerdd ☎ 871 615
**DOLAU**
**Mrs Margaret Rees** – Seintwar ☎ 828 309
**GOGINAN**
**Mrs Bethan Bebb**
Penpistyll, Cwmbrwyno ☎ 880 228
**LLANDRE**
**Mrs Nans Morgan**
Dolgwiail, Llandre ☎ 828 487
**PENRHYN-COCH**
**Mairwen Jones** – 7 Tan-y-berth ☎ 820 642
**TREFEURIG**
**Mrs Edwina Davies**
Darren Villa, Pen-bont Rhydybeddau ☎ 828 296



CYMRAEG — Ariennir y Tincer yn rhannol gan Lywodraeth Cymru.


# dyddiadur

**Rhifyn nesa: Dyddiad cau** Tachwedd 7; **Dyddiad cyhoeddi** Tachwedd 19

**HYDREF**

**15** Nos Fercher Iestyn Tyne yn trafod ei gyfrol *Y cyfan a fu rhyngom ni – ar lwybrau "Atgof" Prosser Rhys.* Cymdeithas y Penrhyn yn Horeb, Penrhyn-coch am 7.30

**17** Nos Wener Pawb a'i Farn gyda Dewi Llwyd Cymdeithas Lenyddol y Garn am 7.30 (Cyfle i bawb ymaelodi o 7.00 ymlaen)

**24** Dydd Gwener Ysgolion Ceredigion yn cau am hanner tymor

**25** Dydd Sadwrn. Gŵyl Gwrw PATRASA yn Neuadd y Penrhyn am 7.00 Adloniant gan Paperwing. Mynediad £5. Gweler tudalen PATRASA ar Facebook

**25** Dydd Sadwrn Cofiwch droi y clociau nôl

**TACHWEDD**

**1** Nos Sadwrn Clive Edwards a Tudur Wyn yn Llety Parc – Geraint Lloyd yn arwain. Tocynnau: £10 gan Megan Jones Roberts Elw tuag at Tir Dewi.

**3** Dydd Llun Ysgolion Ceredigion yn ailagor ar ôl hanner tymor

**5** Nos Fercher Noson tân gwyllt yng Nghae Piod, Bow Street am 6.00. Bwyd a diod ar gael.

**8** Dydd Sadwrn Gŵyl Cerdd Dant Aberystwyth a'r cylch yn Ysgol Penweddig a'r Ganolfan Chwaraeon. Gweler www.cerdd-dant.org

**19** Nos Fercher Meinir Howells Cymdeithas y Penrhyn yn Horeb, Penrhyn-coch am 7.30

**19** Nos Fercher Bara Caws yn cyflwyno 'Llanast!' (Yasmina Reza) yn Arad Goch am 7.30

**21** Nos Wener Noson yng nghwmni Georgia Ruth Cymdeithas Lenyddol y Garn am 7.30

**29** Bore Sadwrn Bore coffi, te a chacen i ddathlu'r Nadolig; stondin danteithion tymhorol yn Neuadd yr Eglwys, Penrhyn- coch o 10.00-11.30.

## Cyfeillion Y Tincer

Dyma fanylion enillwyr Cyfeillion y Tincer Mis Medi 2025

**£25** (Rhif 114) Lorraine Young, 5 Y Ddol, Bow Street
**£15** (Rhif 9) Lila Piette, Llys Hedd, Bow Street
**£10** (Rhif 120) Hywel Williams, 3 Bryn Meillion, Bow Street

Cofiwch os ydych yn aelod o'r cyfeillion ac yn newid enw neu gyfeiriad plis rhowch wybod i'r trefnydd Bethan Bebb 01970880228 neu ar ebost **bethanbebb162@gmail.com**. Diolch o galon i'r rhai sydd wedi newid eu harcheb banc yn barod ac hefyd wedi cynyddu y swm. Cofiwch fod rhaid gwneud y newid cyn ddiwedd Rhagfyr. Diolch eto.

## Teithio am Ddim

Os oes gennych chi Docyn Teithio Rhatach gan un o Awdurdodau Lleol Cymru, bydd modd i chi deithio am ddim ar rai o drenau Trafnidiaeth Cymru gan gynnwys y lein o Fachynlleth i Bwllheli. (Rheilffordd Arfordir y Cambrian) - rhwng mis Hydref a mis Mawrth yn unig. Bydd yn rhaid i chi gael tocyn am ddim o'r swyddfa docynnau cyn i chi deithio. Os nad oes swyddfa docynnau yn yr orsaf, neu ei bod hi wedi cau, bydd modd i chi gael eich tocyn gan yr Archwiliwr Tocynnau ar y trên.

## Cyhoeddi mewn ieithoedd lleiafrif

Cyfarfu Golygydd *y Tincer* gyda'r Athro Iñaki Zabaleta, Athro Emeritus ym Mhrifysgol Gwlad y Basg yn Bilbao ganol mis Hydref pan oedd ar ymweliad â Aberystwyth. Bu ar ymweliadau o'r blaen yn 2011 a 2016. Mae Iñaki Zabaleta yn athro newyddiaduraeth ac yn gyfrifol am brosiect Cyfryngau a newyddiaduraeth ieithoedd lleiafrif lle mae'n edrych arb eth sydd ar gael mewn deg iaith leiafrif. Roedd yn cyfarfod cynrychiolwyr o'r Cyngor Llyfrau, yr Angor, Y Tincer, Golwg, y Dinesydd, Radio Cymru a S4C. Mae wedi cyhoeddi yn helaeth ar y pwnc – os oes rhywun â diddordeb yn ei gyhoeddiadau cysylltwch â Ceris.Gruffuddf@gmail.com

# 30 mlynedd yn ôl




Mrs Iris Blundell a Mrs Hilda Isaac, gynt o Gapel Dewi ar ôl iddynt ddadorchuddio'r maen coffa ar safle yr hen gapel.
Bu'r maen ar dalcen Capel Dewi hyd ei ddymchwel Dydd Gŵyl Ddewi 1993.
Llun: Hugh Jones
O'r *Tincer* Hydref 1995

Ysgrifennydd olaf y Capel oedd Eirwen MacNulty, Capel Bangor. Ac roedd Iris Blundell yn fodryb iddi. Mae gan Mrs MacNulty lawer o atgofion - y Bedyddio; roedd ei chwaer yn canu'r piano ac organ yna a chynhelid clwb plant a chwrdd gweddi yno. Bu cyfnod lle rhannai Madog a Dewi weinidog yng nghyfnod y Parchg Iorwerth Edwards.Y Parchg J.E.Wynne Davies a'r Parchg Elwyn Jenkins oedd y ddau weinidog olaf yna.

Roedd yn siom i'r aelodau i'r capel gael ei ddymchwel ar ddydd Gŵyl Ddewi. Hywel Evans a'i fab osododd y garreg goffa.

Mae Elwyna Davies, Tyncwm, yn cofio ei thad yn casglu gyda ieuenctid y capel i brynu piano – aeth honno i Saron, Llanbadarn pan gaeodd y capel. Ac yno y trosglwyddwyd aelodaeth y gweddill ffyddlon - ond mae hwnnw wedi ei gau erbyn hyn.

Mae'r Parchg J.E. Wynne Davies, Aberystwyth, yn cofio ffyddlondeb yr aelodau ar brynhawn Sul a'r cyfoeth o gymeriadau ymhlith yr aelodau. Carrellio Morgan – â'i wreiddiau yng Nghwmystwyth; John Thomas – yr olaf o deulu Nant-y-moch oedd wedi symud i fwthyn gerllaw'r capel ar ôl boddi'r cwm; a Tomi Ty'ncwm a'i fam â'i gwreiddiau yn yr ardal. Roedd croeso cynnes pob amser ar yr aelwydydd.



**Y dorf a ddaeth ynghyd, llawer â chysylltiad â'r capel a'r pentref.**

Annwyl Olygydd,
Tybed a oes rhywun yn cofio hanes merch ifanc oedd yn byw ym Maesmeurig, Trefeurig!

Roedd yn gantores swynol fu farw yn ifanc iawn. Eos Meurig oedd ei henw. Cofio mam yn dweud fod y geiriau ar ei bedd yn dweud
"Pa le mae Eos Meurig lân/dlos/mud?
Yn y bedd,
Yn y bedd.
Mi fase'n ddiddorol clywed oddi wrth unrhyw un sy'n cofio'r hanes!
Diolch!

**June Griffiths**
Aberystwyth

Cofnodwyd mynwent Tabernacl, Cwmsymlog (fel nifer o fynwentydd Ceredigion a rhai o sir Gaerfyrddin) gan Aeronwy ac Evan James. Ac yng nghyfrol y Tabernacl ceir:

Morgan Thomas, Penrock House, Cwmsebon, fu farw trwy ddamwain yn Sardinia yn y flwyddyn 1879, yn 47 ml oed.
Ei briod, Jane, m. yn 1914 yn 80 ml. oed.
Eu plant:
Elizabeth (Eos Meurig), m. Ebrill 2, 1878

Pa le mae Eos Meurig fad?
Yn y bedd!
Pa le mae gobaith rhan o'r wlad?
Yn y bedd!
Pa le mae'r llais melodus, mwyn,
Fu'n eco'r cwm o dwyn i dwyn?
Distewi wnaeth er maint ei swyn,
Yn y bedd.

Jane Ellen, m. yn 14 oed
Isaac, David, Margaretta, Rebecca fu farw yn eu babandod.
Nai yr uchod: Cpl. William M. WILLIAMS, (o Australia), fu farw ei archoll yn y Rhyfel yn Frainc Mehefin 9, 1918.

Llys y Graig yw enw Penrock House heddiw – y tŷ ar y chwith ar ôl pasio Tyngwndwn

Dyna stôr o wybodaeth ar garreg fedd a hanes digon trist ac mae'n codi sawl cwestiwn. Beth oedd y tad yn wneud yn Sardinia – ai morwr oedd o neu oedd o yn digwydd teithio neu gweithio yn yr ardal. Ac i ba ardal yn Awstralia aeth y nai. Digon o ddeunydd i ymchwilydd fynd ar ôl yr hanes. Oes rhywun o'n darllenwyr gyda gwybodaeth bellach?

# Penrhyn-coch

**Suliau Horeb**

*Hydref*

**19** 10.00 Cyrddau mawr – Iwan Llewelyn Jones – yn Seion Paned i ddilyn

**26** 2.30 Wyn Morris

*Tachwedd*

**2** 2.30 Peter Thomas Oedfa Gymun

**9** 10.00 oedfa fer Peter Thomas Sul y Cofio

**12** 10.30 Bore Mercher Bore coffi – Bethel, Tal-y-bont

**16** 10.30 Beti Griffiths

**23** 2.30 Judith Morris

**30** 2.30 Hywel Davies

**Cymdeithas y Penrhyn**

Lansiwyd tymor newydd y Gymdeithas ar 17 Medi gyda'r Cadeirydd Llinos Dafis yn croesawu'r aelodau i Gapel Horeb. Diolchodd i Ceris Gruffudd a'r pwyllgor am drefnu rhaglen o






gyfarfodydd o bob math. Wedyn cyflwynodd siaradwr gwadd y noson, Delwyn Siôn.

Esboniodd Delwyn ei fod yn bwriadu canu ambell gân ac yn egluro cefndir rhai o'i gyfansoddiadau trwy ddarllen darnau o'i lyfr *Dyddie Da*. (Carreg Gwalch). Soniodd am ei fagwraeth yn Aberdâr. Yr oedd ei Dad yn ddi-Gymraeg ac felly daeth yn gwbl naturiol iddo siarad gwahanol ieithoedd gyda gwahanol aelodau o'i deulu.

Adroddodd sut cafodd ei swyno gan sŵn y gitâr mewn Eisteddfod Sir a mynd ati i ddysgu ei chwarae.

Byddai'n ymweld â theulu'i gefnder Max Boyce a'r ddau'n canu a chyfansoddi gyda'i gilydd. Delwyn oedd yr un cyntaf i glywed cân enwog Max "Hymns and Arias" ond cyfaddefodd nad oedd wedi cydnabod ei photensial.

Soniodd am ei amser ym Mhrifysgol Aberystwyth lle ffurfiwyd y band "Hergest".

Disgrifiodd roi lifft i Kate Roberts ar y ffordd i siarad mewn cyfarfod, a mwynhau ei chwmni hyd iddi ei frifo trwy sarhau Aberdâr!

Cyn canu "Un Seren", esboniodd Delwyn iddo gyfansoddi'r gân pan oedd yn gweithio i Radio Cymru ym Mangor ac o dan bwysau i gynhyrchu cân ar gyfer y rhaglen "Pupur a Halen". Darllenodd stori ynglŷn â henoed yn methu â chael chwarae teg. Gwelodd yr un pryd bod seryddwyr wedi darganfod nebiwla. Meddyliai am ei fam-gu a'i dad-cu yng Nghwm Nedd, gwraig tŷ a glöwr, a sut byddentm wedi rhyfeddu ar ddyn yn cerdded ar y lleuad. Meddyliai hefyd am y Nadolig ac am yr un seren sydd yn hollbwysig.

Diolchodd y Cadeirydd i Delwyn am "fynd â ni am dro". Wrth fwynhau paned diolch i Eleri a Wendy, manteisiodd nifer o aelodau ar y cyfle i brynu copïau o'i lyfr – diolch i Angharad o Inc am ddod i'w gwerthu.



**Clwb Gwau**

Llun o'r nwyddau sydd ar eu ffordd i Wcràin. Mae llawer iawn wedi eu Gwau, eu Crosio a'u cwiltio gan y grŵp. Bydd Jenny Jenkins yn eu casglu ar y nawfed o Hydref.

**Cydymdeimlad**

Estynnwn ein cydymdeimlad â Mairwen Jones a'r teulu , Tan-y-berth, ar farwolaeth ei brawd Eifion Stephens ar 17 Medi yng Nghartref Gofal Hafan y Waun yn 95 oed. Cynhaliwyd yr angladd yn Amlosgfa Aberystwyth ar Hydref 14. Derbyniwyd thoddion er cof tuag at Adain Craig Las, Hafan y Waun trwy law D J Evans, Cyfarwyddwr Angladdau (sieciau yn daladwy i Gyngor Sir Ceredigion)

â Nick Walker, Oran a Harry ar farwolaeth Gail Walker ar 4 Medi

â Leigh a Jenny Hamer-Jenkins, Riley a Zac ar farwolaeth Nesta Hamer – mam Jenny yn Llanilar ar 10 Medi.

Ac â Sandra Beechey a'r teulu ar farwolaeth chwaer Sandra – Bethan Antoniazi, Aberystwyth ar Fedi 3.



**Diolchgarwch Horeb**

Cynhaliwyd oedfa ddiolchgarwch Horeb fore Sul 24 Medi dan ofal y Parchg Watcyn James. Cafwyd eitemau gan blant y Clwb Sul a gwnaethpwyd casgliad tuag at Fanc Bwyd Aberystwyth. Cyflwynwyd £100 i'r Banc.



## Merched y Wawr

Noson o gymdeithasu, ymaelodi a chynnal cystadleuaeth hwyliog o wir neu gau oedd y noson agoriadol yng nghangen y Penrhyn eleni. Roedd rhai aelodau â dychymyg gwych!! Croeso i aelodau newydd i ymuno â ni. Rydym yn cwrdd ar yr ail nos Iau yn fisol yn y Neuadd am saith.

# Eglwys Sant Ioan

**Hwyl fawr haf, helo Hydref**

Ar ddydd Sadwrn olaf mis Mehefin, cynhaliwyd ein Te Mefus blynyddol. Yn lle adloniant eleni, cynhaliwyd arddangosfa ar 'Fywyd yr Eglwys' i'w weld yn Neuadd yr Eglwys. 'Roedd yr arddangosfa yn cwmpasu'r pum mlynedd diwethaf o 2020, trwy gyfnod Cofid, hyd 2025. Bydd yr arddangosfa'n aros yn Neuadd yr Eglwys tan ddiwedd y flwyddyn os hoffai unrhyw un ymweld â'i gweld. Mrs Meinir Davies, Fferm Brynglas, Ponterwyd oedd llywydd y prynhawn yng nghwmni ei merch Angharad. Adroddodd Meinir ei chysylltiad â'r Eglwys. Yn enedigol o Benrhyn-coch, mynychodd yr hen ysgol ag ysgol Sul. Daeth Meinir â hen dystysgrifau Gŵyl yr Eglwys a lluniau ohoni yn blentyn i ychwanegu at yr arddangosfa. Braf oedd hel atgofion.



**Tŵr yr Eglwys**

Erbyn hyn mae gwaith allanol o drwsio'r to ar clochdy wedi'i orffen. Yn anffodus, er bod y gloch wedi'i rhyddhau, mi fydd angen sylw arbenigol ychwanegol arni cyn y bydd yn canu'n glir. Ond gwelir y clochdy ar ei newydd wedd, wrth i'r prennau gael eu hadnewyddu yn ogystal â'i peintio. Gobeithio na fydd angen poeni'n ormodol am gawodydd trymion a stormydd gaeafol creulon am gyfnod maith.

**Pibydd brith Swydd Efrog**

Ar ddechrau mis Awst cawsom brynhawn arbennig ym mhresenoldeb Gez Robinson. 'Roedd Gez yn rhyfeddod ar y rhyngrwyd yn ystod y cyfnod clo wrth iddo ffilmio a thynnu ffotograffau dau deulu o lygod sy'n byw yn ei ardd yn Rotherham. Mae Gez wedi adeiladu pentref ar gyfer y llygod, gan gynnwys tai, tŷ tafarn, stondin lemonêd, beic modur pren a mwy. Cawsom hanes y creaduriaid eraill sy'n ymweld â'i ardd megis yr adar, y wiwerod, y brogaod, Mrs Pigog y draenog ar llwynog â sanau du. Bu



cyfle hefyd i brynu copi o'i lyfr ffotograffau a storïau am y llygod, a braf oedd denu nifer o wynebau newydd i'r digwyddiad.

**Ynys anial ...**

Cawsom noson i'w chofio ar ddechrau mis Medi ac uchafbwynt y flwyddyn hyd yn hyn, sef noson 'Disgiau Ynys Anial'. 'Roeddwn yn ffodus i gael cyflwynydd gwych, sef Ioan Guile, yng nghwmni dau 'long ddrylliwr' i gyd-fynd sef David Lucas a'r Esgob Dorrien Davies. Clywyd chwerthin, canu, tapio bysedd traed a gwelwyd ambell i lygad gwlyb wrth i'r llong ddryllwyr gyfleu eu rhesymau dros eu dewis o ddisgiau. 'Roedd y rhain yn amrywio o 'She wears red feathers' i goncerto Piano Grieg (yn ystod hanner cyntaf y noson), ac yn parhau gyda 'Tri Mochyn Bach' gan Tony ac Aloma, 'Only Love can set me free' gan Bananarama, a diweddu gyda'r corws Haleliwia. (Cawsom ein hatgoffa gan Dorrien nad yw wedi bod yn Esgob cyhyd). Ac wrth i'r 'moctels machlud haul ym Mhenrhyn-coch' ddiflannu, bydd y noson yn aros gennym am beth amser.







Cynhaliwyd cinio'r gymuned yn Neuadd y Penrhyn. Bydd y cinio nesaf dydd Mercher 22 Hydref. Os am fynychu cysylltwch â Eileen Rowlands 01970 820390

Lluniau: Wendy Hogarth

**Bore Coffi dathlu'r cynhaeaf**

Am ddiwrnod da i gynnal bore coffi, te a chacen a hynny yng nghanol storm Amy! Fe chwythwyd y rhan fwyaf o'r ymwelwyr drwy ddrws yr hen ysgol ond fe gynheswyd y galon wrth i ni fwynhau 'Cwtsh mewn cwpan' (neu myg o siocled poeth). 'Roedd yna stondin danteithion tymhorol ar gael, cwmni da a chroeso cynnes i chi ymuno â ni ar gyfer yr un nesaf i ddathlu Nadolig.



**Digwyddiadau i ddod**

Cynhelir gwasanaeth teuluol ddydd Sul cyntaf bob mis yn yr Eglwys, am 4 o'r golch y prynhawn. Mi fydd y gwasanaeth byr a chartrefol yn cynnwys storïau, cartwnau a chaneuon ysgafn, croeso cynnes i bawb.

Cyfarfu grŵp gweddi nos Iau cyntaf y mis am 6 o'r gloch yn yr eglwys.

Dathlwn ein Cwrdd Diolchgarwch ar fore Sul 12fed Hydref am 11 o'r gloch y bore yng ngwmni ein pregethwr gwâdd, sef Archddeacon Mones Farrah.

Cynhelir noson Bingo ar thema'r cynhaeaf, nos Wener 17eg Hydref am 7 o'r gloch, hwyl i'r teulu oll.

Mi fydd bore coffi, te a chacen i ddathlu'r Nadolig, yn ogystal a stondin danteithion tymhorol a mwy, yn Neuadd yr Eglwys fore Sadwrn y 29ain Tachwedd rhwng 10.00-11.30.


# Rhagor o Eglwys Sant Ioan

**Ywen y mileniwm**
Pwy sy'n cofio'r 22ain o fis Medi ar droad y ganrif newydd? A phwy sy'n cofio'r ymweliad arbennig gawsom gan Dr David Bellamy (y botanegydd, y darlledwr a'r cadwraethwr amlwg) a phlant ysgol gynradd Penrhyn-coch? Yr achlysur oedd plannu Coeden Ywen y Mileniwm. Oes yn wir, mae yna bum mlynedd ar hugain ers i'r brigyn eiddil honno drawsnewid i lwyn bychan iachus. Mae coed yw yn hysbys am ei hirhoedledd ac yn dyst i fomentau coffaol yn ein hanes.

Yn hanes cwarter canrif y goeden ifanc hon, fe'i cofnodwyd gyda phla Cofid 19. Tybed pa straeon eraill fedrai'i hadrodd yn y dyfodol? Beth am ymweld â chefn mynwent Eglwys Sant Ioan, i ddymuno pen blwydd hapus yn bump ar hugain oed iddi?







**Swydd newydd**
Dymuniadau gorau i Sion Wyn Hurford benodwyd yn Reolwr Gwerthiant newydd Ystadau Hiwse, Aberystwyth

**I'r coleg**
Dymuniadau gorau i Gwion Wilson ar ei gwrs Rheoli Chwaraeon ym Mhrifysgol Met Caerdydd.

**Eisteddfodol**
Bydd yr enw Heilyn Cynfal yn gyfarwyddwr i fynychwyr Eisteddfod Penrhyn-coch. Roedd yn gystadleuydd brwd yma yn ddiweddar. Clywyd hi yn siarad ar y radio ar raglen Shan Cothi yn ddiweddar o Melbourne, Awstralia lle mae wedi symud i fyw. Mae'n cynnal ei hun drwy fod yn athrawes a nyrs yn rhan amser a hefyd fel aelod o gwmni Melbourne Opera.

**Sêl Cist Car dan Do**
Cynhelir sêl cist car dan do yn wythnosol yn Neuadd y Penrhyn rhwng 3.30-5.30 ar brynhawniau Gwener o 7 Tachwedd ymlaen am fis. £5 y bwrdd (20 lle ar gael). I fwcio bwrdd (y cyntaf i'r felin) cysylltwch â Mande 07528 276704 neu gyrrwch neges i mande869@gmail.com Yr elw i Uned Gancr Leri, Ysbyty Bron-glais.



**Bore Coffi Macmillan**
Cynhaliwyd ein bore coffi blynyddol ar gyfer Macmillan yn Neuadd y Penrhyn ar yr 16eg o Fedi. Roedd y byrddau yn llawn a digon o gacennau i'w prynu, diolch i'r rhai a fu'n brysur yn coginio. Diolch hefyd i bawb a wnaeth y bore coffi yn llwyddiannus trwy wirfoddoli, cyfrannu'n ariannol, a helpu yn y gegin i baratoi'r te. Rydym yn gwerthfawrogi eich haelioni bob amser gan fod pob ceiniog yn cyfrif ar gyfer yr elusen pwysig hwn. Y cyfanswm a gasglwyd eleni yw £1220. Llawer o ddiolch i bawb.



**Pencampwr Cymru**
Llongyfarchiadau mawr i Owen Jac Roberts (ŵyr Mervyn & Sue Hughes, Ger-y-llan) ar ddod yn bencampwr Cymru ym Mhencampwriaeth tymblo Cymru, roedd yn cystadlu yn erbyn y gorau o bob cwr o Gymru ac y tu hwnt. Mae hefyd wedi cael ei ddewis i gynrychioli Cymru yn Loule, ar gyfer Pencampwriaeth Tymblo Rhyngwladol a gynhelir ym Mhortiwgal yn mis Hydref.

Hoffai Owen ddiolch yn fawr i hyfforddwyr Clwb Gymnasteg Aberystwyth yn ogystal a hyfforddwyr carfan Cymru am y cyfle i gael cystadlu dros ei wlad.

## Pêl-Droed Penrhyn-Coch

Tim 1af Penrhyn-coch

**Cynghrair**

*Medi*

12 Penrhyn-coch 2 Guilsfield 3

**Cwpan Cymru JD**

20 Penrhyn-coch 2 CPD Sychdyn Unedig 0

**Cwpan Cyngrhair Canolbarth Cymru**

24 Penrhyn-coch 3 Llanfair Unedig 3
(Llanfair yn ennill ar giciau o'r smotyn)

**Cynghrair**

27 Llandudno 3 Penrhyn-coch 0

**Eilyddion Penrhyncoch**

*Medi*

13 Llanilar 0 Eilyddion Penrhyn-coch 4

27 Llanbedr Pont Steffan 2
Eilyddion Penrhyn-coch 1

## Dyddiad Eisteddfod Gadeiriol Penrhyn-coch

Er mawr siom i drefnwyr Eisteddfod Gadeiriol Penrhyn-coch mae Urdd Ceredigion wedi trefnu eu Heisteddfod Ranbarth cynradd ar y diwrnod y bwriadwyd cynnal Eisteddfod y Penrhyn. Fel arfer mae eisteddfodau yr Urdd i gyd drosodd erbyn diwedd Mawrth ond oherwydd amgylchiadau nid felly mae hi eleni. Bydd y Pwyllgor yn trafod y sefyllfa y dyddiau nesaf a chyhoeddir dyddiad newydd yr Eisteddod yn fuan.

Bancydarren, Capel Dewi, Capel Madog, Cefn-llwyd, Cwmerfyn, Cwmsymlog, Llwyn-prysg, Penrhiwnewydd, Pen-bont Rhydybeddau, Penrhyn-coch, Salem

Gwefan Cymuned Trefeurig

Cyfeiriad newydd

trefeurig.cymru@gmail.com

- Newyddion diweddaraf
- Hanes a hen luniau
- Cyngor Cymuned
- Mudiadau
- Y Tincer

Gwefan Trefeurig Website    Trefeurig8




## ADOLYGIAD

Gerald Morgan *Moelallt ac Emynau Eraill* – Gerald Morgan, 2025. 36t. Llyfr a CD £13.00

Mae gan bob un ddawn, a'r doniau rheiny'n amrywio o'r naill berson i'r llall. Un sy'n amlwg wedi'i fendithio â'r ddawn i ysgrifennu emynau a chyfansoddi tonau yw Gerald Morgan, Tregaron.

Dywedir bod Williams Pantycelyn wedi ysgrifennu dros fil o emynau. Honnir bod Mozart wedi cyfansoddi 800 o ddarnau cerddorol yn ystod ei fywyd byr (bu farw yn 35 oed). Synhwyrir bod ysgrifennu emynau i Bantycelyn, a chyfansoddi cerddoriaeth i Mozart, yr un mor hanfodol ag oedd anadlu. Rhywbeth yn debyg, mae'n siŵr gen i, yw agwedd Gerald Morgan at y naill beth a'r llall. Y mae'n gynhyrchiol iawn, wedi cyhoeddi toreth o emynau ac emyn-donau yn ystod y blynyddoedd diweddar.

Cyfrol 36-tudalen sydd newydd ei gyhoeddi yw *Moelallt ac Emynau Eraill*. Ceir yma 24 o emynau a thonau gwreiddiol. Trefnir y tonau i gyd i gynghanedd gyflawn (SATB); gwnaethpwyd y trefniannau i'r cwbwl ac eithrio tair tôn gan Neli Jones, Pontrhydfendigaid. Recordiwyd yr emynau, ac mae modd clywed unawdwyr lleol yn canu'r alawon, i gyfeiliant Neli Jones. Cymwynas fawr yw hynny, a braf clywed talentau o'r fro sy'n cefnogi'r Pethe a'n heisteddfodau lleol – Carys Ann Davies, Miriam Llwyd Davies, Sara Davies, Dafydd Jones, Gwynne Jones a Guto Lewis. (Ceir nodiadau bywgraffyddol iddynt ar dudalennau 34-35.)

Mae Tregaron a'r cylchoedd o amgylch y fro arbennig hon o Geredigion yn amlwg yn ddylanwad mawr i Gerald Morgan. Mae blas lleol ar sawl agwedd o'r casgliad. Caiff y gyfrol ei chyflwyno i'r diweddar Barchedig Arthur Wynne Edwards, un a fu'n weinidog ar gapel enwog Bwlchgwynt, Tregaron. Fel sy'n nodweddiadol o waith Gerald, daw enwau nifer o'r tonau o'r ardal, eu cyflwyno i bobol leol, neu i goffáu'r rhai sydd wedi bod yn ddylanwad arno. Cymwynas fawr yw'r esboniad y tu ôl i'r dewis o donau (tud. 32).

A dyma ddod at yr emynau. Mae yma emynau at sawl achlysur, ac at sawl math o gynulleidfa. Anelir rhai ar gyfer plant, a cheir pennawd neu destun i'r cwbwl. Mae'r rheiny'n amrywio o 'Y Crëwr Mawr' (cân o fawl i Dduw'r Crëwr) i 'Daeth y Diwrnod' (sy'n weddi dros Gymru). Ceir hefyd gyfeiriadaeth ysgrythurol wrth ymyl rhai o'r emynau. Trwy'r cwbwl, mae'r emynau yn genhadol eu naws, yn Feiblaidd eu cynnwys ac yn Grist-ganolog. Golyga hyn felly fod yma emynau cadarn, na fyddan nhw'n dyddio nac yn teimlo'u bod nhw 'mewn' na 'mas' o ffasiwn. Dyma gryfder mawr y casgliad yn fy marn i. Oni bai bod yr emynau'n taro deuddeg, yn ddealladwy ac yn gallu cyffwrdd â'r galon ac â'r enaid, fyddai yna fawr o bwrpas i gyfrol o emynau a thonau.

I'r rheiny ohonom sy'n adnabod Gerald Morgan, gwyddom yn iawn am ei angerdd at ei Waredwr. Ac o'r angerdd personol a didwyll hwnnw y daw'r casgliad *Moelallt ac Emynau Eraill*. Diolch iddo am ddefnyddio'i ddoniau a rhoi i ni ar gof a chadw ffrwyth ei awen a chynnyrch ei lafur. Gobeithio y caiff lawer foddhad a bendith o'r casgliad hwn – a gobeithio hefyd caiff Gerald flynyddoedd eto i gynhyrchu pethau tebyg ar ein cyfer.

**Delyth Morgans Phillips**

R.J Edwards a'i Fab
Adeiladau Fferm y Cwrt
Cwrt Farm Buildings
Penrhyn-coch

Contractiwr, masnachwr gwair a gwellt
Arbenigwr ar ailhadu
Cyflenwi a gwasgaru calch, slag a Fibrophos
Lori, turiwr a malwr i'w llogi
Cyflenwi cerrig mân

01970 820149

Crefftau Pennau
Coffi Boreuol
Byrbrydau Poeth neu Oer
Cinio
Te Prynhawn
Crefftau Ac Anrhegion

Ar agor
Llun-Sadwrn
10.00-4.30
Sul: Ar gau

Brecwast ar gael
01970 820 050

Pennau

## Dolau

**Pen blwydd Arbennig**
Llongyfarchiadau mawr a phob dymuniad da i Mrs Margaret Rees, Seintwar, a ddathlodd ei phen blwydd yn 80 wrth i fis Medi ddirwyn tua'i derfyn.

## Llandre

**TAIGWYNION**
**Graddio**
Llongyfarchiadau i Mari Morgan, Maes Mieri, sydd wedi graddio yn y Gymraeg ym Mhrifysgol Caerdydd. Mae yn mynd ymlaen yn awr i wneud ymarfer dysgu ym Mhrifysol Metropolitan Caerdydd.

**Pen blwydd hapus**
Llongyfarchiadau i Erddyn James Lluarth Taigwynion ar ddathlu ei ben blwydd yn 90 oed. Yn y llun mae'n ymlacio yng nghwmni ei feibion Penri a Llŷr, ei wyrion Osian, Rhun, Gwern, Lleucu a Besi a hefyd ei gor-wyrion Betsan Alaw a Lewys Rhys.



Hoffai Erddyn ddiolch o galon i Vernon Jones am y Tribannau dderbyniodd ganddo ar ei ben blwydd yn 90 yn dwyn atgofion am blentyndod y ddau yn Rhydyfelin. Fe fydd Vernon yntau yn dathlu ei ben blwydd yn 90 ar ddechrau 2026. Mae dwy linell clo pennill olaf y Tribannau yn cyfeirio at lun o Erddyn a Vernon yn gryts bach yn eistedd ar risiau storws Bach y Rhew, Rhydyfelin.

**I Erddyn yn 90 mlwydd oed**

Cyfarchion iti Erddyn;
Diflannodd llawer blwyddyn
Ers campau gynt wrth afon Paith
A'n cwrsio ymaith sydyn.

I'r ysgol ym Mhenparce,
A dysgu Saesneg 'falle!
Yn Gosen fe gaem Ysgol Sul
Er cul ei chymeriade.

Yn Crigyn Dimai'n chwilio
Am 'chestnuts' lond ein dwylo.
Ar steps y storws llun ni'n dau
Fydd yn parhau i'n cofio.

*Vernon Jones*



DIGIDA
Cyrsiau arlein i fusnesau, mudiadau ac unigolion.
Cyrsiau arlein byr, adnoddau, cymuned a digwyddiadau byw.
Rhowch hwb i'ch marchnata digidol.
Gwefannau
WordPress, Optimeiddio Peiriannau Gwe, Google Analytics
Cyfryngau Cymdeithasol
Facebook, Instagram, TikTok
Marchnata
Strategaeth Marchnata Digidol, Blogio a mwy.
Gyda mwy o gyrsiau yn cael ei ychwanegu yn rheolaidd.
ARFOR Creu Gwaith - Cefnogi'r Iaith
Cambrian
digida.cymru @digidacymru

Arbenigwr glanhau popty a charped
Phil 07534 213229
cwtch.mw@outlook.com
PRO-TEK CLEANING SOLUTIONS

Probert & Williams eye care
Eich optegwyr annibynnol lleol
Archwiliadau GIG a phreifat
Sbectol a sbectol haul
Lensys cyffwrdd
Gofal llygaid brys
Llygaid sych
15 Stryd y Popty, Aberystwyth
01970 611555
www.probertandwilliams.co.uk
Optician Awards
Maui Jim
ZEISS
Cymraeg

YTincer@googlemail.com

CPD Penrhyn-coch
*O dan reolaeth newydd*
Croeso cynnes i bawb o bob oedran, yn deuluoedd ac yn unigolion.
Y CLWB
sef. 1965
Prydau cartref, Cinio dydd Sul. Archebwch fwrdd neu gallwch gael bwyd wedi ei gludo.
Edrychwn ymlaen at eich croesawu
01970 828 992

# Blodau yn y fynwent

Tybed faint o ddarllenwyr Y Tincer glywodd sgwrs ddifyr ar raglen Shân Cothi ddechrau'r mis.

Alan Jenkins oedd yn siarad efo Shan – magwyd Alan a'i chwaer Marilyn – plant Islwyn a Joyce Jenkins yn Nhregerddan. Roedd Mrs Jenkins yn frodor o Aberdâr ond y tad wedi ei fagu dros y ffordd i siop Spar yn Bow Street.

Wrth edrych ar fideos o Meic Stevens yn canu ar You Tube yn ddiweddar sylwodd Alan – ddychwelodd o Eastbourne i fyw yng Ngheredigion i Landysul dair mlynedd ar ddeg yn ôl.  Anthony Griffiths oedd yn yr ysgol efo fo yn Ysgol DInas yn canu'r gitâr. Nid oedd wedi gweld Anthony ers blynyddoedd a threfnodd i'w gyfarfod.

Ganwyd Anthony Griffiths ym Mangor a chafodd ei fagu yn Aberystwyth, lle mae'n byw o hyd. Mae'n gitarydd acwstig uchel ei barch a bu'n rhan o fand Meic Stevens am flynyddoedd.

Mae hefyd yn ffotograffydd da a chyhoeddodd ddwy gyfrol - *Elenydd – Hen Berfeddwlad, Gymreig* (Carreg Gwalch) a *Snowdonia – Myth and Image* (Y Lolfa)

Dywedodd Alan 'Daeth y syniad o ysgrifennu'r gân wedi i fi ymweld a bedd fy mab ym Mynwent y Garn. Collodd ei fywyd yn 23 mlwydd oed yn dilyn damwain beic modur. Wrth imi edrych o gwmpas y fynwent, gwelais enwau nifer o bobl roeddwn yn eu hadnabod. Roedd rhai ohonynt yn berthnasau, fy rhieni a fy nhad-cu a mam-gu. Adeg tymor yr hydref oedd hi ac roedd y gwynt yn chwythu'r dail o amgylch yn union fel pe baent yn dawnsio. Dyma beth wnaeth fy ysgogi i gyfansoddi'r gân 'Blodau sy'n y fynwent', y gân gyntaf i mi ei hysgrifennu yn Gymraeg."

Mae'r recordiad o'r gân - recordiwyd yn y Drenewydd ar gael ar CD trwy gysylltu gydag Alan ar y rhif 01559 363 165. Cost: £5.00, gyda £2.00 o bob gwerthiant yn cael ei gyfrannu tuag at Apêl Gaza.



Lluniwyd yr erthygl o gyfweliad ar 'Bore Cothi', ac ysgrif yn rhifyn Medi 2025 o bapur bro *Y Garthen* a sgwrs ffôn gyda Alan Jenkins.



# Cylch Cinio




Y Cyn-Archdderwydd Myrddin ap Dafydd oedd gŵr gwadd Cylch Cinio Aberystwyth yn ein cyfarfod mis Hydref. Daeth nifer dda o'r aelodau ynghyd i'r Clwb Rygbi ym Mhlas-crug i fwynhau pryd campus o fwyd a hynny mewn cwmni da.

Roedd dychwelyd i Aberystwyth yn bleser pur i Myrddin ac yntau wedi treulio pum mlynedd hapus yn astudio yn y Brifysgol yn y dre. Cyfeiriodd at Aber fel 'prifddinas ein diwylliant' gan gyfeirio at gynifer o sefydliadau a digwyddiadau cenedlaethol sydd a chysylltiad agos a'r dre. Roedd lleoliad ein cyfarfod yn y Clwb Rygbi hefyd yn addas gan fod ganddo ddiddordeb byw yn y gêm.

Brodor o Lanrwst yw Myrddin. Roedd ei riemi yn athrawon yn Sir y Fflint ac wedi sylweddoli bod yna angen dybryd am lyfrau Cymraeg, yn enwedig deunydd darllen difyr i blant. Dyma roi cychwyn arni drwy werthu llyfrau ar stondin yn y farchnad yn Llanrwst. Cymaint fu'r gwerthiant a'r gefnogaeth i'r fenter fel y bu'n rhaid cymryd y cam mawr o agor y siop lyfrau Gymraeg gyntaf yng Nghymru yn Llanrwst. Unwaith eto bu cefnogaeth y Cymry Cymraeg lleol yn frwd ac fe lwyddodd y fusnes i oroesi pob rhwystr. Daeth Dafydd Parri, y tad, yn awdur toreithiog a llwyddiannus iawn a bu ei lyfrau yn enwedig cyfres y Llewod yn ffefrynnau gan blant Cymru.

Ganwyd Myrddin yn un o bump o blant ac mae pob un ohonynt wedi dewis sefydlu a rhedeg busnes i'w cynnal mewn bywyd. Dychwelyd i Lanrwst fu hanes Myrddin er mwyn sefydlu Gwasg Carreg Gwalch sydd erbyn hyn yn un o brif gyhoeddwyr Cymru. Mae e hefyd yn un o sylfaenwyr y bragdy lleol llwyddiannus Cwrw Llyn.

Yn ei sgwrs mynegodd Myrddin bryder gwirioneddol am sefyllfa bresennol Cymru o safbwynt llythrennedd. Gwelwyd dirywiad dybryd yng ngallu plant i ddarllen hyd nes ein bod erbyn hyn fel cenedl ar waelod rhestr PISA ac mewn sefyllfa ddifrifol o fod y wlad waethaf yn y byd o safbwynt llythrennedd. Yn hanesyddol, dair canrif yn ôl, roedd Cymru, yn wahanol iawn i Loegr, ar y blaen ymysg gwledydd y byd diolch am gyfraniad allweddol Beibl William Morgan, yr ysgolion Sul ac ysfa Cymry'r cyfnod hwnnw i sicrhau lefel dda o addysg.

Roedd yn feirniadol o agwedd Llywodraeth Cymru, yr awdurdodau addysg, diffyg cefnogaeth rhieni ac yn enwedig y datblygiadau syfrdanol o safbwynt y defnydd o'r cyfryngau digidol. Roedd yn gefnogol iawn o agwedd a chefnogaeth athrawon i geisio hyrwyddo'r arfer o ddarllen.

Wrth ddiolch dywedodd Rees Thomas iddo gael y fraint a'r pleser o gydweithio gyda Myrddin ap Dafydd y Cyn-Archdderwydd pan fu'n gyfrifol am greu Cadair Eisteddfod Genedlaethol Ceredigion, Tregaron 2022. Cyfeiriodd at gyfraniad mawr teulu Arianwen a Dafydd Parri i Gymru ac i fentergarwch a brwdfrydedd un teulu i greu cymaint o farc ar Gymru.

Cyfeiriodd y Cadeirydd Cynog Dafis at gynnig a wnaed yn y cyfarfod mis Medi, pan fu Gwerfyl Pierce Jones yn yn ein plith, y dylem ddangos ein cefnogaeth i waith ardderchog yr hosbis lleol HAVHAV drwy gyfraniad ariannol. Cytunwyd yn unfrydol i gyfrannu £250. Enillydd y raffl oedd Wyn Mel.

Y cyn Aelod Seneddol Elfyn Llwyd fydd ein gŵr gwadd yn ein cyfarfod nesaf.

## Cyngor Cymuned **Melindwr**

Cyfarfu'r Cyngor ar nos Iau Medi 18 gyda y cadeirydd, Tom Holt, yn y gadair. Roedd tri chynghorydd wedi danfon ymddiheuriadau.

Derbyniwyd munudau Gorffennaf fel rhai cywir. Dywedodd y Cynghorydd Sir ei fod wedi cael cyfarfod buddiol efo trigolion Aber-ffrwd a Cwmrheidol ynglŷn â chael defnydd bws bro.

Rhai o'r pynciau a drafodwyd:

Baw cŵn: Yn anffodus mae hyn yn dal yn broblem er fod yna biniau ar gael a hefyd bagiau baw cŵn mewn sawl lle. Gofynnir yn garedig i berchnogion cŵn fod yn gyfrifol a defnyddio yr adnoddau sydd ar gael.

Gorchudd Bws i Blaengeuffordd, cyfarfod wedi bod; a nodwyd bod y gorchuddion bysiau eraill wedi cael eu glanhau.

Cyflymder traffig yn yr ardal a dywedwyd fod yna fwy o bresenoldeb yr heddlu wedi bod yn ddiweddar.

Hyfforddiant cynghorwyr i barhau.

Casglu sbwriel. Mae y cynghorwyr wedi bod yn casglu sbwriel o gwmpas yr ardal yn fisol dros yr Haf. Dyddiad nesaf casglu sbwriel yw Hydref 12.

Bydd Cyngor Cymuned Melindwr yn croesawu ceisiadau am grantiau anfonwch eich cais efo mantolen ariannol. Dyddiad cau pob cais fydd Rhagfyr 31 2025.

Os oes rhywun â diddordeb i ymuno â'r Cyngor Cymuned cysylltwch â'r clerc neu un o'r cynghorwyr.

Dyddiad y cyfarfod nesaf – Hydref 16 am 7.30yh yn Neuadd Pen-llwyn, Capel Bangor. Croeso i bawb. (ebost – cyngormelindwrcouncil@gmail.com).

## ADOLYGIAD


Moelona *Ffynnonloyw* Honno, 2025. 208T. £12.99

Yn ystod yr haf eleni gwnaeth Gwasg Honno gymwynas â darllenwyr nofelau drwy ail-gyhoeddi *Ffynnonloyw* gan Moelona, a gyhoeddwyd gyntaf yn 1939. Mae'r gyfrol ddiweddaraf hon hefyd yn cynnwys rhagymadrodd cynhwysfawr a gwerthfawr gan Katie Gramich.

Hanes tair cenhedlaeth yn nheulu fferm Ffynnonloyw yn ne Ceredigion sydd yma. Mae'r nofel wedi ei rhannu'n dair rhan gyda dyddiad ar bennod gyntaf pob rhan - 1880, 1906, 1925, - cyfnod o bron i hanner can mlynedd a welodd newidiadau mawr yng Nghymru, yn cynnwys dyfodiad y rheilffyrdd i hwyluso cysylltiadau rhwng ardaloedd gwledig, diwydiannol a threfol, a'r cynnydd yn ymwybyddiaeth y Cymry o'u Cymreictod, yr hyn a arweiniodd at sefydlu'r Gymdeithas yr Iaith Gymraeg gyntaf yn 1885 a'r sefydliadau cenedlaethol sy'n dal mor bwysig i ni, – y Brifysgol, y Llyfrgell, a Phlaid Cymru.

Yn yr un cyfnod bu newid sylfaenol yn statws menywod gyda sefydlu Undeb Cymdeithasol a Gwleidyddol y Menywod (yr WSPU) gan Emmeline Pankurst a'i chyd-ymgyrchwyr yn 1903, a arweiniodd at Ddeddfau Seneddol 1918 a 1927.

Cawn ein cyflwyno'n ddiymdroi ar ddechrau'r nofel i'r uchelgais, y gystadleuaeth, yr eiddigedd a'r dicter a oedd yn gyrru Benjamin Lewis, tad teulu Ffynnonloyw, i geisio'r gorau i'w blant drwy eu hanfon 'bant' i gael addysg. Doedd Mali, ei wraig, ddim yn rhannu ei benderfyniad ond does dim amheuaeth nad fe oedd yn rheoli'r teulu, - roedd cadair freichiau ar yr aelwyd iddo fe a stôl frwyn i Mali; roedd e'n galw Mali yn 'ti' a hithau'n dweud 'chi' wrtho fe. Pa mor gyffredin tybed oedd yr arfer hynny rhwng y rhywiau?




Mae pob agwedd ar ymwadiad ac ymgyrraedd ieithyddol yn cael eu darlunio yma'n gelfydd e.e. Ruth, y ferch, a oedd wedi ymdrechu i anghofio ei Chymraeg ac yn destun gwawd wrth faglu drwy ei Saesneg carbwl; merched yn newid eu henwau i ffurfiau mwy Seisnig, e.e. Marged i Maggie; a Nan yn cyhuddo'i brawd Lewis o firieinio'i seiniau hyd yn oed: "Mae ofan arnat ti chwerthin yn naturiol rhag ofn i ti chwerthin fel Cymro", meddai.

Efallai bod yr ymddygiadau snobyddlyd, hunan-ddyrchafol yma yn ddigon cyntefig i dynnu gwén, ond nid dim ond rhywbeth yn perthyn i'r gorffennol ydyn nhw. Ydyn, maen nhw yn rhan wirioneddol o'r hyn a fu, o'n hanes ni i gyd, ond yn wir, maen nhw'n dal gyda ni - maen nhw yma o hyd, ac mae *Ffynnonloyw* yn ddrych ohonyn nhw!

**Llinos Dafis**

## Goginan

**Llwyddiant**

Braf oedd clywed am hanes Dafydd a Karen, Troedrhiw yng ngwerthiant sêl Hyrddod yn Llanfair-ym-Muallt yn ddiweddar. Braf yw gweld pâr ifanc ar ddechrau eu gyrfa ffermio yn cael llwyddiant yn barod.



Llun: Hwrdd "Blueface" Troedrhiw

**Cydymdeimlad**

Cydymdeimlwn a Val Evans, Gwarllan , ar farwolaeth ei thad yng Nghartref Preswyl Cwmcynfelyn.

## Dôl-y-bont

**Cydymdeimlad**

Estynnwn ein cydymdeimlad â Gerallt Evans a'r teulu, Pantydwn ar farwolaeth chwaer Gerallt, Margaret Evans o Lanrhystud.

**Pen blwydd hapus**


Llongyfarchiadau i Tirion Sedgewick, Tynsimdde, ar ddathlu ei phen blwydd yn 18 ar y 6ed o Hydref.

**Gwe Cambrian Web**
Cwmni lleol o Aberystwyth sydd yn creu gwefannau dwyieithog a gwasanaethau marchnata digidol ar gyfer busnesau bach a mudiadau.

Cysylltwch heddiw!

GWE Cambrian WEB

cambrianweb.com | 01970 623 906 | info@cambrianweb.com | @gwecambrianweb




**inc**
Amrywiaeth eang o lyfrau, cardiau, cerddoriaeth ac anrhegion Cymraeg.

**CROESAWIR ARCHEBION GAN UNIGOLION AC YSGOLION**

13 Stryd y Bont, Aberystwyth
**01970 626 200**

**Hoffech chi hysbysebu eich busnes yma?**

# Enwau lleoedd
## Angharad Fychan

Yn ystod dauddegau'r ugeinfed ganrif aeth y Bwrdd Addysg ati i drefnu cynllun cenedlaethol, 'Scheme for the Collection of Rural Lore in Wales', drwy gyfrwng yr ysgolion.

Cofnodwyd pob math o wybodaeth, yn eirfa, dywediadau, coelion tywydd, enwau lleoedd, arferion, a thraddodiadau, ac er bod natur y cynnyrch yn amrywio o ardal i ardal, mae'n gloddfa o wybodaeth hynod werthfawr. Diogelwyd peth o gynnyrch ysgolion Ceredigion ar gyfer y Cynllun ymhlith papurau David Thomas yn y Llyfrgell Genedlaethol, ond cyhoeddwyd rhywfaint ohono mewn colofn dan y pennawd 'Rural Lore' ym mhapur newydd y *Welsh Gazette*.



**Pwll Dawnsio (llun: Rhodri Griffiths)**

Wrth bori drwy'r deunydd a gasglwyd am ardal Pen-llwyn, deuthum ar draws cyfeiriad at enwau lleoedd diddorol ar dir fferm Penlanolau, i'r gogledd-ddwyrain o Gapel Bangor.[1]

> *Banc cerrig gwynion* on this farm has a cavity known as *Pwll Dawnsio* or *Pit Dawnsio* and on one side of this *Pwll Dawnsio* is a rock, a part of which is called '*Stôl y Fiddler*'.

Gyda chymorth teulu Griffiths, Penlanolau, bu'n bosibl lleoli *Pwll Dawnsio* ar fin y lôn las sy'n arwain o Benlanolau i gyfeiriad Bancydarren, yn union wrth war fferm Tyn-pwll.[2] Yn anffodus doedd yr enw *Stôl y Ffidler* ddim yn gyfarwydd iddynt, er bod sawl craig yn y cyffiniau sy'n gweddu'r disgrifiad.

Mae'n ymddangos mai enwau ydynt sy'n cadw cof am hen arfer o ymgynnull ar gyfer difyrrwch cymdeithasol. Â'r cofnod yn y Rural Lore ymlaen i adrodd ei bod hi'n debygol mai mwynwyr gweithfeydd y Darren fyddai'n defnyddio'r lle ar gyfer dawnsio i gyfeiliant ffidil, ond mae'n hawdd dychmygu y gallasai ddenu carfan ehangach o'r trigolion hefyd, er na fyddai hynny wrth fodd y Methodistiaid.

Mae'n bosibl i *Cae dol dawns* ar dir Drefach ym mhlwyf Llanwenog, Ceredigion, a *Park y dawns*, fferm Maesygwrda, Lacharn, sir Gaerfyrddin, dderbyn eu henwau am yr un rheswm.[3]


Ceir enwau lleoedd eraill sy'n gofnod o arferion cymdeithasol tebyg er enghraifft *Twmpath Chwarae*, codiad tir dafliad carreg i'r de o eglwys Llanafan Fawr, Brycheiniog, lle byddid yn cynnal pob math o gampau yn ogystal ag ymladd ceiliogod;[4] *Pant y Chware*, ym mhlwyf Llanfair Talhaearn, sir Ddinbych, y ceir tystiolaeth bod chwaraeon megis *fote ball* wedi eu cynnal yno yn 1634;[5] a'r llecyn gwastad gerllaw *Ffynnon y Campau* ar fynydd Disgwylfa, i'r de o Lanerfyl, sir Drefaldwyn, lle byddai pobl yn ymgynnull ar gyfer chwaraeon.[6] Efallai mai dyna hefyd oedd arwyddocâd yr enw *Penbrynpelau*, hen enw Berth-lwyd, yn Nhal-y-bont, Ceredigion, gyda'r elfen olaf, *pelau*, yn ffurf luosog yr enw *pêl*.

Os gwyddoch chi am enwau eraill tebyg yn yr ardal, byddwn yn falch o glywed.

Paratowyd gyda chefnogaeth Cymdeithas Enwau Lleoedd Cymru **www.cymdeithasenwaulleoedd.cymru**
a Geiriadur Prifysgol Cymru **https://www.geiriadur.ac.uk/**

---

1. LlGC, David Thomas B56.
2. SN67418197.
3. Rhestr Map Degwm Llanwenog (1840) a Lacharn (1841).
4. *Llawysgrif Amgueddfa Werin Cymru 1793/252, 39.*
5. *Pantychwarel* bellach. Cofnodion Llys Sesiwn Fawr, Wales 4/21/2 folio 51-2
6. Eirlys Gruffydd, *Ffynhonnau Cymru*, i. (1997), 30.






# Madog, Dewi / Cefn-llwyd

**Marchnad Aberystwyth 13/09/2025 (2027)**
Prisiau rhywbeth tebyg i'r sêl ddiwethaf gyda mwy o alw am ddefaid magu. Yr ŵyn stôr yn well gyda chyfartaledd o £85.65.
Roedd y prisiau fel a ganlyn
Defaid lladd (1017) Cyf £82.02 Mwy £178 gan Rees, Goitre, Llanarth.
Mamogiaid magu (198) Cyf £108.15 Mwy £178 Lewis, Fferm Llanbadarn, Llan-non.
Brokers magu (94) Cyf £84.14 Mwy £160 gan Jones, Berthlwyd, Tal-y-bont.
Hyrddod (28) Cyf £120.61 Mwy £225 gan Loxdale, Castle Hill.
Ŵyn stôr (630) Cyf £85.65 Mwy £118 gan Morris, 2 Glynbedw, Rhoslefain.
Ŵyn benyw (60) Cyf £102.72 Mwy £122 gan Evans, Llanddwy, New Cross.

**Arwerthiant Cymdeithas Defaid Mynydd Cymreig**
Rydym yn falch o adrodd hefyd am arwerthiant flynyddol ar ran Arwerthiant Defaid Tras Cymdeithas Defaid Mynydd Cymreig

Yr uchafbwynt yn adran yr ŵyn benyw oedd oen gan TR&PA Davies, Rhydymerydd, Efail-wen a werthodd am 815 gini. Gwerthodd eraill gan yr un gwerthwr am 260 gini.

Yn adran yr hyrddod gwerthodd hwrdd hefyd gan Davies, Rhydymerydd, am 1410 gini. Gwerthodd eraill am 310 gini gan Claire Grove, Fferm New Henllys, Gŵyr.

Cafodd y Gymdeithas sêl ardderchog. Diolch i'r Arwerthwr Mr Geraint James am ei gymorth. Diolch am y cefnogaeth.

**27/09/2025**
**(2935 – gwerthwyd y cyfan)**
Gwerthodd y mamogiaid magu yn arbennig o dda i fwyafrif o £196 Savinelli, Cadwgan, Castellnewydd Emlyn gyda llawer o brynwyr yn bresennol. Gwerthodd yr ŵyn stôr hefyd i fasnach dda.
Roedd y prisiau fel a ganlyn:
Mamogiaid magu (848) cyf £102.53; mwy £196 gan Savinelli, Cadwgan, Castellnewydd Emlyn.
Brokers magu (364) cyf £80.90; mwy £127 gan George, Penwern.
Hyrddod lladd (18) cyf £81.72; mwy £237 Price & Roberts, Troedrhiw, Goginan.
Defaid lladd (627) cyf £74.23, mwy £209 gan Evans, Bryngwyn, Abermeurig.
Ŵyn stôr (1072) cyf £94.06, mwy £162 gan Morgan, Penglanowen, New Cross.

Prisiau da heddiw eto.
Diolch i'r tîm am eu gwaith called a diolch i'r prynwyr a'r gwerthwyr am eu cefnogaeth.

**Sêl Hyrddod (169 gyda 135 wedi eu gwerthu)**
Cynhaliwyd arwerthiant hyrddod flynyddol mwn cydweithrediad a'r arwerthiant ddefaid. Y pencampwr oedd hwrdd Texel gyflwynwyd gan Mr Rees, Goitre werthodd am 1000gini i Mr Jones, Tŷ Mawr, Dinas Mawddwy.
Y pencampwr wrth gefn oedd hwrdd Charollais ram gan Jones, Llety Cynnes werthodd am 660gini i'r un prynwr. Gwerthodd yr hwrdd uchaf ei bris – BFLx Texel gan Mr Tom Evans, Pendre, Llanfihangel-y-Creuddyn am 1225gini i Mr Owen, Esgairgyfela, Aberdyfi. Gwrthodd Tom Evans 3 hwrdd ychwanegol am dros £1000 gini yr un. Gwerthwyd 14 hwrdd arall am 850 gini neu fwy. Diolch i'n beirniad Mr Medwyn Lloyd a hefyd yr arwerthwr Mr Geraint James.



**Genedigaethau**
Llongyfarchiadau i Dai a Wendy Evans, Fferm y Fronfraith ar enedigaeth wyres ac ŵyr newydd o fewn mis i'w gilydd. Ganwyd Sara Jên i Lisa a Hywel yn Cnwch-coch ym mis Awst a Geraint Gwilym i Siân a Gwilym yn Dinas Mawddwy ym mis Medi – brawd bach i Casi ac Anni. Llongyfarchiadau i Mrs Myfanwy Pugh Fronddewi ar ddod yn hen fam-gu eto.

Ar Fedi 18 ganwyd Lefi Blaidd Binks – mab i Daniel a Georgia, Cwm Hudol, Capel Dewi. Dymuniadau gorau i'r teulu.


GWASANAETH GARDDIO MYNACH
Torri Porfa, Sietynau, Tirlinio a Garddio
Gwasanaeth cyfeillgar a phrisiau rhesymol
Ffoniwch Meirion:
07792 457816
01974 261758
e-bost: mynachhandyman @yahoo.com

GWASANAETH CYFIEITHU
Linda Griffiths

Maesmeurig
Pen-bont
Rhydybeddau
Aberystwyth
Ceredigion
SY23 3EZ
01970 828454
linda.griffiths01@btinternet.com

SIOP A SWYDDFA BOST PENRHYN-COCH
Perchennog: Laurence Kelly
AR AGOR
Llun – Sadwrn
7 y bore – 9 yr hwyr
Sul
7 y bore – 7 yr hwyr
Papurau dyddiol a'r Sul, cardiau cyfarch siop drwyddiedig
01970 828312

RHYD-Y-PENNAU
COGINIO CARTREF
CHWARAEON BYW . COFFI
01970 867 888

# Aber-ffrwd a Chwmrheidol

**Urdd y Gymuned**

Prynhawn Sul ynghanol mis Medi estynnodd Pat a Danny Owens, Tŷ Gof wahoddiad i aelodau Urdd y Gymuned dreulio prynhawn yn cael eu tywys o amgylch eu harddangofa o hen geir sydd yn eu meddiant. Roedd yn hyfryd iawn i weld cymaint o hen geir gosgeiddig. Cafwyd hanes y ceir gan Pat a Danny ac roedd yn ddiddorol fel y mae eu casgliad wedi tyfu dros y blynyddoedd. Cafwyd lluniaeth ysgafn i orffen y prynhawn. Diolch o galon i Pat a Danny am y croeso.

**Statkraft**

Cynhalwyd prynhawn agored Statkraft ar brynhawn eithaf gwlyb. Daeth dipyn o deuluoedd ynghyd i fwynhau adloniant am ddim. Bu aelodau Urdd y Gymuned yn brysur yn cynnal stondin gacennau a llwyddwyd i godi £125.00 i elusennau Statkraft. Bu ceffylau Canolfan Marchogaeth Rheidol hefyd yn brysur yn rhoi profiad i farchogaeth y ceffylau. Prynhawn hyfryd iawn.



Aelodau Urdd y Gymuned yn edrych ar ôl stondin gacennau yn Niwrnod agored Statkraft.







Seren Skipp yn brysur yn tywys plant ar daith ceffylau Canolfan Marchogaeth Rheidol yn niwrnod agored Statkraft.

## Gwaith yng Nghwmrheidol





Cymerodd ei fod yn rhan o'r cynllun i dynnu plwm, haearn, sinc ac ati o'r dŵr o'r hen fwynfeydd. Lluniau:Jackie Willmington

## Cynllun Llunio Lleoedd yng Ngheredigion

Mae Cyngor Sir Ceredigion yn blaenoriaethu buddsoddiad mewn cymunedau a lleoedd. Mae'n canolbwyntio ar alluogi lleoedd i fuddsoddi ac adfer eu mannau cymunedol a chreu'r sylfeini priodol ar gyfer cymunedau lleol llewyrchus.

Ar ôl datblygu Cynlluniau Lle ar gyfer prif drefi'r sir rai blynyddoedd yn ôl, mae'r pwyslais bellach ar helpu cymunedau gwledig llai o faint. Mae prosiect Llunio Lle yn ymwneud â helpu tri ar ddeg o bentrefi gwledig i ddeall eu hanghenion, llunio eu gweledigaeth a chlustnodi blaenoriaethau, a gaiff eu cyflwyno mewn Cynllun Lle unigryw.

Dywedodd y Cynghorydd Clive Davies, Aelod Cabinet Ceredigion dros Economi, Adfywio a Rheoli Carbon: "Mae'r broses o lunio lle a chreu cynlluniau wedi bod o fudd i'n prif drefi yng Ngheredigion. Maent wedi darparu ffocws ac wedi galluogi mynediad at gyllid i wireddu elfennau'r cynlluniau. Drwy gynnal ymarfer tebyg gyda'n cymunedau mwy o faint ar draws y sir, bydd hyn hefyd yn ychwanegu gwerth, yn rhoi ffocws ac yn arwain datblygiadau'r dyfodol. Rwy'n annog pawb i gymryd rhan ac i'n helpu i adeiladu cymunedau llewyrchus ar draws Ceredigion."

Bydd nifer o ffyrdd i drigolion lleol a grwpiau gymryd rhan i lunio eich Cynllun Lle, gan gynnwys cerdded o gwmpas y gymuned, sesiynau galw heibio ac arolygon dros y misoedd nesaf.

Mae'r Cyngor Sir hefyd yn datblygu gwefan ddwyieithog ar-lein am y cynllun. Bydd y wefan hon yn adnodd i gymunedau ar gyfer gweledigaethau a syniadau am wneud newidiadau i'w Lle, yn ogystal â bod yn ddull rhyngweithiol ar gyfer ymateb ac olrhain cynnydd.

Mae Cyngor Sir Ceredigion wedi penodi Chris Jones Regeneration (Studio Response a Gwe Cambrian) i'w helpu i ddatblygu Cynlluniau Lle ar gyfer pob cymuned wledig.

Y tair ar ddeg cymuned wledig fydd yn ganolbwynt i'r Cynlluniau Lle yw Aber-porth/Parc-llyn, Bow Street (gan gynnwys Llandre), Cenarth, Felin-fach/Ystrad Aeron, Llannarth, Llanilar, Llan-non, Llanrhystud, Penrhyn-coch, Pontarfynach), Pontrhydfendigaid, Tal-y-bont, Y Borth.

Os ydych chi'n byw, neu'n aelod o grŵp lleol yn un o'r pentrefi gwledig hyn, gallwch dderbyn diweddariadau a chofrestru eich diddordeb drwy anfon e-bost at chris@chrisjones.studio.





SIOP
**SGIDIAU GWDIHW**
8 Ffordd Portland,
Aberystwyth
SY23 2NL
01970 617092
Shan ac Alys Jones
GWASANAETH
**GOFAL TRAED**
Ceiropodyddion /podiatryddion graddedig ac wedi cofrestru efo'r
MRCPod

**D J Evans Cyfarwyddwyr Angladdau**
Busnes teuluol gyda dros 60 mlynedd o brofiad
Kairali, Penrhyn-coch SY23 3EQ
Gwasanaeth personol, urddasol gyda chydymdeimlad
Gwasanaeth Pedair Awr ar Hugain
djevansfuneraldirectors@gmail.com
Aberystwyth 01970 615328
Penrhyn-coch 01970 820249
Machynlleth 01654 700006

**JONATHAN LEWIS**
Saer Coed / Adeiladydd
01970 880 652
07773 442 260
LLWYNDAFYDD,
CAPEL BANGOR
ABERYSTWYTH

YTincer
@googlemail.com

## Bow Street

**Suliau**
**Y Garn**
*Hydref*
**19** Wyn Morris
**26** Yn Noddfa

*Tachwedd*
**2** Rhidian Griffiths
**9** Lyndon Lloyd
**16** Pen-llwyn
**23** I'w drefnu
**30** Meirion Morris

**Noddfa**
*Hydref*
**19** Cyfeillach
**26** Richard Lewis

*Tachwedd*
**2** Uno yn y Garn
**9** Oedfa Sul y Cofio yng ngofal yr Aelodau.
**16** Y Gyfeillach yng ngofal Diana Jones.
**23** Richard Lewis. Cymundeb.
**30** Uno yn y Garn

**Capel Noddfa**
*Colomen Heddwch*
Bydd gryf fel craidd dy blyfyn, – caria'n llwyth
yn ystwyth, ac estyn
dy gân i'n dala ni'n dyn
yn dy olau di-elyn.

*Mererid Hopwood*

Elisabeth Wyn oedd yn gyfrifol am Gyfeillach Capel Noddfa mis Medi. Cychwynnodd Elisabeth y cyfarfod wrth ein atgoffa fod y Sul hwnnw wedi ei ddynodi yn 'Sul Heddwch' a rhannodd englyn Mererid Hopwood gyda ni.

Yna, darllenodd emyn Llywelyn C. Huws:
Dragwyddol Dduw, sy'n Dad holl deulu'r llawr,
erglyw ein cri yn ein cyfyngder mawr,
yn nos ein hadfyd rho in weled gwawr
dy heddwch di.

Yna cafwyd gweddi dros heddwch. I ddilyn y myfyrdod ar heddwch roedd Elisabeth wedi trefnu i Eirian Reynolds ddod atom i gynnal cwis a llwyddodd Eirian i lenwi bylchau yng ngwybodaeth rhai ohonom o'r Beibl, Cymru a sawl maes arall! Gareth fydd yn gyfrifol am Gyfeillach mis Hydref.



## Y Garn ym mis Medi



Bu Cymdeithas Chwiorydd y Garn yn cyfarfod brynhawn Mercher cyntaf y mis ym Mwyty Crefftau Pennau yn ôl ei harfer i drafod ein trefniadau ac i dderbyn ein cyfraniadau misol at Water Aid. Ar ôl bod ynghau drwy fis Awst agorodd Capel y Garn ei ddrysau fore Sul, Medi'r $7^{\text{fed}}$, i groesawu Dr Rhidian Griffiths i arwain ein haddoliad; yr wythnos ganlynol, ar Fedi'r $14^{\text{eg}}$, Y Parchg. Aled Davies, Chwilog, fu'n tywys ein meddyliau; dilynwyd hynny ar Fedi'r $21^{\text{ain}}$ gan wasanaeth gan y Parchg Judith Morris, ac ar Fedi'r $28^{\text{ain}}$ cawsom Gyfarfod Diolchgarwch dan arweiniad Cymdeithas y Chwiorydd, pryd gwnaethpwyd casgliad at Fanc Bwyd Aberystwyth.





**Priodas**
Llongyfarchiadau mawr i Dafydd Siôn Rees, Brysgaga, a Malan Hughes, Pwllheli, ar eu priodas ym Mhortmeirion yn ddiweddar. Mae Dafydd a Malan yn filfeddygon ym Milfeddygfa Deufor yn y Ffôr ger Pwllheli. Dymuniadau gorau i'r ddau.



Ar Medi 30 bu Rees yn arwain grŵp Rhydypennau ar gylchdaith o ben pellaf Dyffryn Rheidol heibio Ystumtuen.Roedd hwn yn rhan o daith roedd Rees wedi'i harwainam y tro cyntaf 30 mlynedd nôl. Diolch Rhys.

**Oedfa'r Bore**

Braf oedd clywed llais Nerys Bown, Dunblane yn arwain oedfa'r bore ar Radio Cymru ar 21 Medi.

**Ar *The Chase***

Gwelwyd Medi Jones -Jackson yn cystadlu ar raglen deledu *The Chase* nos Fawrth, 23 Medi – er na fu iddi ennill fe sgoiodd yn uchel iawn.

**Croeso**

Croeso i Twm a Non a'r plant Morgan, Gwenno a Nel i Dŷ Capel y Garn. Gobeithio y byddwch yn hapus yn eich cartref newydd.

**Merched Y Wawr Rhydypennau**

Ar ddechrau tympr newydd death newyddion da i'r gangen, cawsom wybod fod ein cais am grant gan Arian i Bawb y Loteri Genedlaethol wedi bod yn llwyddiannus. Byddwn yn defnyddio'r arian i gynnal project ar fywyd a gwaith David Lloyd George,a threfnu trip i'r Amgueddfa yn Llanystumdwy. Byddwn yn cydweithio gyda Ysgol Rhydypennau, dysgwyr a'r gymuned leol. Bydd mwy o fanylion i'w cael wedi i ni gwrdd eto a chael cynlluniau mwy pendant. Carem fel cangen ddiolch yn ddiffuant i'r Loteri am eu cefnogaeth hael.

**Pen blwydd hapus**

Pen blwydd hapus hwyr i Delyth Jenkins, Maes Ceiro, a ddathlodd ben blwydd arbennig yn ddiweddar.

**Marwolaeth**

Bu farw Malcolm Tunley ar y cyntaf o fis Gorffennaf yn 88 oed, ym Mhlas Cwmcynfelin yn dilyn gwaeledd o glefyd Parkinson. Symudodd Malcolm a'i wraig Shirley i Maes Ceiro, yn 1972 pan ddechreuodd Malcolm weithio yng Ngholeg Llyfrgellwyr Cymru. Roedd yn caru'r gymuned, ffrindiau a'r teulu, yn cynnwys ei fab Gareth a'i ferch Alison, ac maent yn awr yn drist o'i golli.

**Taid Balch**

Llongyfarchiadau mawr i Robert Pugh, Maes Ceiro, ar ddod yn Daid balch unwaith eto wrth i Stephen ac Amy ddechrau teulu yng Nghaerloyw ( Gloucester): ganwyd merch fach, Matilda Felicity Pugh, iddynt ddydd Sul 5 Hydref . Ar y pryd yr oedd Robert newydd ddychwelyd o`r Eidal wedi bod yno yn ymweld â Martin a`r teulu. Pob dymuniad da iddynt.

**Clwb Gwawr Rhydypennau**

Llunio celf sy'n gipolwg ar fyd y fferm yw mwyniant Ffion George o Lanfihangel-y-Creuddyn. Bellach, mae'r diddordeb wedi troi yn fusnes bach o'r enw 'Llechi Ffion', a threfnwyd cyflwyniad i'w gwaith gan Glwb Gwawr y Pennau ar 3 Hydref.

Mae'r darluniau yn baentiadau apelgar ar lechen, ac er trwch y garreg mae'r lluniau yn fyw i'r llygad. Nodi'r berthynas rhwng y creadur a'i berchennog yw un o brif themâu'r lluniau, yn ogystal â dathlu arferion blynyddol bywyd y fferm: yr wyna a'r didoli, y cneifio a'r treialon a'r sioeau lleol.

Yn ogystal â dangos y lluniau, aeth Ffion ati i drafod sawl agwedd ar y busnes bach: dyma oes hybu busnesau drwy Instagram, a chafwyd blas ar wylio'r fideos Tiktok sydd yn dod â chwsmeriaid o sawl cwr. Bu Ffion yn arbrofi ag arddulliau gwahanol, a bu aelodau'r clwb yn edmygu'r paratoi, y torri a'r drilio ar y garreg, a chlywed am y paent a'r technegau.

Oll yn oll, roedd pawb wedi gwirioni ar Llechi Ffion – edrychwch am y busnes ar Facebook ac Instagram.

Roedd y gweithiau y daeth Ffion â nhw i'w harddangos i'r clwb yng nghist car ambell aelod cyn troi am adre, a'r prynu yn brawf o'r apêl.

Daeth y noson i ben gyda chyfle i drafod dros baned yng nghlydwch Neuadd Rhydypennau.

Yn y misoedd nesaf, bydd Clwb Gwawr y Pennau yn mynd i weld drama Llanast a sioe gerdd Annie. Croeso cynnes i chi, fenywod lleol, i ymuno â'r clwb.









# David Alun Jenkins



Ar Awst 26ain eleni, yn ei gartref yng Ngharreg Wen, Bow-Street, ar ôl gwaeledd hir dan ofal diatal ei briod Mair, bu farw Alun Jenkins, o Gapel Bangor yn wreiddiol. Cydymdeimlir â Mair ac â'i feibion Gareth, Dylan ac Aled, a Hana, Cai, Bleddyn a Dewi, ei wyrion. Cynhaliwyd yr angladd yng Nghapel Pen-llwyn, Capel Bangor ar Fedi'r 12fed dan ofal y Parchg Ifan Mason Davies. Braint yn wir oedd cael clywed recordiad o lais cyfoethog Alun yn cael ei chwarae ar ddiwedd y gwasanaeth.

Magwyd Alun Jenkins a'i chwaer Myra gan eu rhieni Dei ac Eluned Jenkins, yng Nglandwr, Dolypandy. Cafodd blentyndod hapus iawn, yn ddisgybl yn yr ysgol leol, yn selog yn y capel ym Mhen-llwyn ac yn cymryd rhan ym mhob agwedd ar fywyd y pentref. Daeth yn ffrindiau gorau gyda'r teulu Williams, Fferm Cefn Llidiart; roedd beiciau modur ganddo fe a Fred a bydden nhw'n rasio o gwmpas y caeau ym Maesbangor ac yn nes ymlaen yn mynd i'w hoff Ddyffryn Elan i weithio ar y cneifio a'r gwair; bu dawnsfeydd nos Sadwrn yn Rhaeadr hefyd yn atyniad mawr!

Byddai nosweithiau Sul fel rheol yn cael eu treulio yng Nghefn Llidiart yn canu emynau gyda Mr Williams wrth y piano. Mr Williams a sefydlodd Gôr Meibion Melindwr yn y pentref ac roedd Alun yn un o'r aelodau cyntaf. Efallai mai Mr Williams oedd y person cyntaf i weld bod dawn anghyffredin gan Alun. Mynnai bob amser fod gan Alun well llais nag unrhyw un o unawdwyr buddugol yr eisteddfodau lleol.

Un diwrnod rhoddodd Ifan Mason Davies (y Parchg erbyn hyn) gopi o raglen Eisteddfod Trisant i Alun. Gwelodd yntau fod yno gystadleuaeth i rai oedd heb ennill o'r blaen, solo twps! Ar ôl trafod gyda Mair Selway, cyfeilydd Côr Meibion Melindwr, gofynnodd iddi ddysgu cân iddo, gan ei siarsio i gadw hynny'n gyfrinach. Y canlyniad oedd i Alun ennill y gystadleuaeth, gyda'r beirniad yn awgrymu y dylai gael gwersi canu gan athro proffesiynol. Felly cafodd Alun ei gyflwyno i Redvers Llewelyn, a chael hyfforddiant canu ffurfiol. Tyfodd bywyd yn gylch o waith corfforol yn ystod yr wythnos a chystadlaethau canu mewn gwahanol Eisteddfodau ar y penwythnosau.

Ar ôl ymuno â Mudiad y Ffermwyr Ifainc yn Llanilar, byddai Alun yn canu deuawdau gyda Billy Morris, gydag Eirwen Hughes, merch ysgol ar y pryd, wrth y piano. Yn 1963 penderfynodd gynnig ar yr unawd Bariton dan 25 yn Eisteddfod Genedlaethol Llandudno, gydag Eirwen Hughes yn cyfeilio. Enillodd, ar ei gynnig cyntaf. Syndod iddo, pan gyrhaeddodd adref oedd gweld bod Lizzie Davies, Rhif 7, wedi codi baneri yn Nolypandy i ddathlu'r digwyddiad!

Bu ennill yn Llandudno yn sbardun i beri i Alun feddwl a oedd hi'n bosibl y gallai rhywun fel fe, nad oedd â rhyw lawer o wybodaeth am reolau sylfaenol cerddoriaeth, efallai wneud gyrfa o'r ddawn oedd ganddo. Gwnaeth gais am wrandawiad yng Ngholeg Cerdd Manceinion, a chael ei dderbyn yn fyfyriwr. Cafodd gyfnod wrth ei fodd yno, yn dysgu am sylfeini cerddoriaeth, yn mireinio ei grefft a meithrin ei ddawn gan berfformio mewn sawl opera, a gwneud cyfeillion oes. Yr adeg hon hefyd recordiodd gyda Cherddorfa'r Halle dan arweiniad Sir John Barbirolli. Cofir i Sir John ddweud ei fod yn teimlo mai Alun oedd un o'r lleisiau gorau i ddod allan o Gymru mewn cenhedlaeth.

Ar ôl ei ddyddiau coleg bu Alun yn ffodus i gael cynnig contract gyda'r Opera Frenhinol yn Covent Garden. Yno bu'n canu gyda'r perfformwyr operatig gorau, yn cynnwys y tri thenor. Roedd Alun yn arbennig o hoff o Joan Sutherland a Monserrat Caballe (a ganodd Barcelona gyda Freddie Mercury)! Teithiodd Alun yn eang gyda'r cwmni, gan wneud tymhorau yn La Scala Milan yn ogystal â Chaliffornia, Korea a Siapan. Byddai Alun yn canu rhannau solo gyda'r Opera Genedlaethol, yn cynnwys rhannau bach mewn operau megis La Boheme a Lucrezia Borgia.


Er hyn i gyd roedd gartref wastad wedi bod yn dynfa iddo fe, a chyda theulu ifanc penderfynodd ef a Mair ddychwelyd adref i Gymru ac fe ddaethon nhw i'r Pandy, Capel Bangor.

Parhaodd Alun gyda'i yrfa ganu gan gymryd contractau gyda gwahanol gwmniau ledled Ewrop, o Marseille i Nancy, o Berlin i Amsterdam. Bu hefyd yn gweithio llawer gydag Opera North yn Leeds yn ogystal â'n Cwmni Opera Cenedlaethol ni yng Nghymru.

Gwyddai Alun iddo gael ei fendithio â rhodd Duw o dalent. Gwnaeth yn fawr o'i ddawn. Roedd ganddo hefyd gariad mawr at ei deulu, ei bentref, a bywyd y wlad yn ei holl gyflawnder.

GWASANAETH GARDDIO
ROBERT GRIFFITHS
Am bob math o waith garddio ffoniwch
07813 338647

WEST WALES ANTIQUES ABERYSTWYTH
Ydych chi angen gwerthu hen bethau, neu efallai angen gwacâu tŷ?
• Dodrefn • Arwyddion Enamel • Tacsidermi • Peintiadau • Cerflunwaith a Dodrefn Ardd • Hysbysebion • Carthenni • unrhywbeth hen neu anarferol!
Prynwr a Gwerthwr Hen Bethau
7 Stryd Portland Uchaf, Aberystwyth SY23 2DT
www.west-walesantiques.co.uk 07866 005996 dryburghantiques@gmail.com



James Memorials Ltd
• COFEBAU ARBENNIG
• BEDDARGRAFFIADAU
• ADNEWYDDU O SAFON
• ARWYDDION AR DAI A BUSNESAU
Gofynnwch am rhagor o fanylion
James Memorials, Vicarage Crossing, Llandre, Bow Street SY24 5BZ
Ffôn: 01970 820111
jamesmemorials@gmail.com

# Colofn Clwb Golff Y Borth ac Ynys-las

**Catrin Pugh Jones**



**Golffio yn yr Algarve**
Cafwyd amser gwych gan ddeg o aelodau adran y menywod ym Mhortiwgal yn ddiweddar. Trefnwyd y gwyliau gan ein Capten Helen Lewis a hynny trwy gwmni Steve a Mary McDowell, Atlantic Holidays. Chwaraewyd ar bedwar cwrs golff gwahanol yn ystod yr wythnos – Benamor, Isla Canela, Castro Marim a Quinta do Vale – gyda'r criw yn aros mewn gwesty yn nhref Travira. Roedd yna gystadleuaeth wahanol ar bob cwrs gyda gwobrau ar gyfer yr enillwyr ac i'r rhai fu digon ffodus i gael pluen. Mawr yw ein diolch i Helen am ei holl waith trefnu ac i bawb am yr hwyl a'r sbri. Dyma'r canlyniadau:

Clwb Golff Benamor – Cystadleuaeth Stableford
1af – Helen Lewis
2 bluen – Barbara Flanagan

Clwb Golff Castro Marim – Parau
1af – Breda Roberts a Catrin Pugh Jones
Pluen – Jean Harrison

Clwb Golff Isla Canela – Cystadleuaeth Tîm
1af Tîm Helen gyda Kathy Price, Sue Wilson, Catrin a Karen Evans
Pluen – Sue Wilson

Clwb Golff Quinta Do Vale – Stableford
1af Barbara Flanagan
Pluen – Breda Roberts

**Diwrnod Capten Adran y Dynion**
Cafwyd cefnogaeth frwd i ddiwrnod Capten Nick Downing er budd Clwb Bocsio Aberystwyth. Mae'r Clwb Bocsio, sy'n cael ei rhedeg gan wirfoddolwyr, yn gweithio gyda phlant a phobl ifanc yn Aberystwyth i ddatblygu eu sgiliau a thechneg bocsio gan hybu ffitrwydd, disgyblaeth a hunan ddelwedd. Cynhaliwyd cystadleuaeth Stableford ar y diwrnod ar gyfer dros 80 o aelodau a'u gwesteion ac yn dilyn y golf, cafwyd arwerthiant o eitemau chwaraeon cofiadwy a raffl hael â nifer fawr o wobrau. Trwy gydol ei flwyddyn fel Capten, mae Nick wedi hyrwyddo'r Clwb Bocsio gan drefnu raffl mewn digwyddiadau cymdeithasol. Gyda'r rhoddion gan y cystadleuwyr a gwesteion, raffl a'r arwerthiant, roedd y cyfanswm a gasglwyd ar y dydd yn agos i £3,000. Wrth dderbyn



y rhodd diolchodd arweinwyr y Clwb Bocsio i Nick ac i'r Clwb Golff am y cyfraniad hael a fydd yn rhoi hwb mawr iddyn nhw.

*Adran 1*
Hugh Jones – 40 pwynt
Ewen Davies – 34 pwynt
Steve Beresford – 34 pwynt

*Adran 2*
Roy Jones – 41 pwynt
Steve Evans – 40 pwynt
Ken Griffiths – 35 pwynt

*Cyn Gapten â'r Sgor Uchaf*
Les Jones – 33 pwynt

*Ymwelydd Gorau* – Irfon Evans – 29 pwynt

**Diwrnod Capten Adran y Menywod**
Trefnwyd diwrnod arbennig gan ein Capten Helen Lewis i'r aelodau a hefyd i'w gwesteion a ddaeth o glybiau golf Hen Golwyn, Porthmadog a Llandrillo-yn-Rhos. Roedd cystadleuaeth y dydd yn Stableford gyda gwobrau crochenwaith unigryw wedi eu gwneud gan Helen. Cafwyd lluniaeth hyfryd ar y cwrs a dawnsio a chanu i gloi'r digwyddiad. Casglwyd £860 mewn cyfraniadau ar gyfer elusen ddewisedig Helen, sef Sepsis Research FEAT ac er y gwyntoedd cryfion, cafwyd diwrnod i gofio. Diolch o galon Helen.

**Canlyniadau**
Prif Enillydd – Anne Morris ar 36 points

*Adran 1*
$1^{af}$ Kay Thomas – 35 pwynt
$2^{ail}$ Barbara Flanagan – 33 pwynt
$3^{ydd}$ Jane Raw Rees – 32 pwynt

*Adran 2*
$1^{af}$ Andrea Evans – 32 pwynt
$2^{ail}$ Margaret Roberts – 31 pwynt
$3^{ydd}$ Laura Perkins – 30 pwynt

*Sgôr Gorau* – Ymwelydd
Rhonwen Allport – Clwb Golff Porthmadog – 30 pwynt

*Cystadleuaeth y Bêl Binc* –
Anne Morris, Barbara Flanagan a Christina Powdrill











# Y Borth







**Ar y gweill**

Mae Helen John wedi bod yn gwau ers yn blentyn ond nid creu ambell i siwmper, sgarff neu flanced y mae hi. Dros y blynyddoedd, mae Helen wedi gwau cannoedd ar gannoedd o eitemau ar gyfer achosion gwahanol yn y wlad hon a thramor. Ugain mlynedd a mwy yn ôl, dechreuodd wau ar gyfer grŵp 'Woollies for the World" gan wneud sgarffiau a hetiau i'r digartref ym Mhrydain, blancedi ar gyfer cartrefi henoed, a siwmperi 'pysgod a sglodion' ar gyfer babanod mewn rhannau o Affrica.

"Y rheswm maen nhw'n cael eu galw'n siwmperi 'pysgod a sglodion' yw fod babanod o deuluoedd tlawd mewn rhannau o Affrica yn aml yn cael eu lapio mewn papur newydd i'w cadw'n gynnes ar ôl eu geni. Mae'r siwmperi bach yma'n cymryd lle'r papur newydd," eglurodd Helen, sy'n wreiddiol o Rosllannerchrugog ond sydd wedi byw yn y Borth ers ymddeol tua deng mlynedd yn ôl. Mae'r patrwm ar gyfer y siwmperi yn ddigon syml ond mae angen sicrhau bod y canol yn hirach a bod digon o le oherwydd bod boliau'r babanod bach yma yn aml yn fawr oherwydd diffyg maeth," ychwanegodd Helen, sy'n gallu cwblhau un o'r siwmperi bach lliwgar yma o fewn diwrnod.

Er mai yn y Rhos y cafodd Helen ei magu, roedd gan ei thad deulu yn Y Borth a dyna un o'r rhesymau dros symud i'r pentref gyda'i gŵr David ar ôl ymddeol. Hi yw Trysorydd grŵp Sefydliad y Merched yn ogystal â Chlwb Henoed Y Borth.

"Fy nhad wnaeth fy nysgu i wau yn wreiddiol pan o'n i tuag wyth oed a dwi wedi bod wrth fy modd ers hynny. Dwi ddim yn rhywun sydd jyst yn gallu eistedd i lawr a gwylio'r teledu heb wneud dim. Mae gwau yn fy nghadw i'n brysur a dwi'n gallu cefnogi achosion da ar yr un pryd," meddai Helen, a fu wrth ei gwaith yn reolwr banc gyda'r Nationwide ym Mangor cyn symud i'r de lle bu'n cadw cyfrifon ar gyfer Menter Iaith Rhondda Cynon Taf a Menter Caerdydd. Mae Helen hefyd wedi bod yn gwau blancedi ac eitemau eraill ar gyfer Wcràin ers i'r rhyfel yno ddechrau yn 2022.


"Byddai'n anfon yr eitemau yma at Plymouth Ukraine Medical Aid yn Nyfnaint, lle mae fy merch yn byw. Maen nhw'n trefnu bod loris anferthol yn llawn nwyddau yn mynd allan i Wcràin bob rhyw ddeufis ac mae ganddyn nhw restr hir o bethau sydd eu hangen – nid yn unig dillad wedi'u gwau ond hefyd offer cymorth cyntaf, sachau cysgu, bwydydd sych ac yn y blaen."

Mae Helen bob amser yn falch iawn i dderbyn rhoddion gwlan felly os oes ganddoch chi beli sbâr yn hel llwch yn y cwpwrdd, cysylltwch â hi drwy ebostio helenpjohn@hotmail.com neu anfonwch neges ati ar Facebook.

## Straeon y Môr

Ar nos Wener 19 Medi, daeth dros gant o bobl Y Borth ynghyd i rannu a gwrando ar Straeon y Môr yng nghanolfan Seren y Môr. Trefnwyd y digwyddiad gan Kim Williams o'r Borth a Dr Alex Arnall o Brifysgol Reading fel rhan o brosiect sy'n edrych ar sut y mae atgofion o stormydd hanesyddol yn gallu ein helpu i gynllunio ar gyfer y dyfodol. Yn ystod y noson, cafodd cyfres o atgofion eu cyflwyno gan bobl y pentref ar ffurf stori, barddoniaeth a drama yn sôn am fywyd ger y lan a sut mae stormydd wedi effeithio arnyn nhw a'r ardal. Cafwyd arddangosfa o waith celf gan ddau grŵp lleol hefyd – Hwb Cymunedol y Borth, a guradwyd gan Martine Ormerod, a darluniau gan ddisyblion Ysgol Craig yr Wylfa wedi'u curadu gan Carol Bainbridge. Bu'n noson hwyliog a llwyddiannus iawn a hoffai'r trefnwyr ddiolch i bawb sydd wedi cymryd rhan yn y prosiect ac wedi helpu gyda'r ymchwil.







**Chwysigennod y Môr**
Mae sawl chwysigen fôr (Portugese man-of-war) wedi golchi lan ar draethau'r Borth ac Ynys-las yn ddiweddar. Mae gan y creaduriaid bach tryloyw dentaclau brathog felly byddwch wyliadwrus a pheidiwch â'u cyffwrdd.



**Disgo Calan Gaeaf**
Mae Cymdeithas Rhieni, Athrawon a Chyfeillion Ysgol Craig yr Wylfa wedi trefnu digwyddiad Calan Gaeaf yn Neuadd Gymunedol Y Borth ar 25 Hydref. Yn ogystal â disco, bydd gemau, crefftau, bwyd, cacennau a gwobrau. Tâl mynediad fydd £2 i blunt a £4 i oedolion gyda'r holl elw yn mynd at yr ysgol.

**Medal Hir Wasanaeth**
Llongyfarchiadau i Phil Jones dderbyniodd fedal hir wasanaeth yn ddiweddar gan y Bad Achub am 40 mlynedd o wasanaeth. Ymunodd Phil â Gorsaf Wirfoddol Bad Achub y Borth – gyda chaniatâd ei rieni yn 17 oed – gan roi 100% gydol ei yrfa. Roedd canmoliaeth mawr iddo am ei ymroddiad- fel gwyliwr y glannau ac aelod o griw y Bad Achub ac yn ddiweddarach aelod o griw ar y glannau a gyrrwr tractor Diolch yn fawr Phil.



Phil Jones a derbyniodd fedal hir wasanaeth gan y Bad Achub yn ddiweddar.

# Capel Bangor / Pen-llwyn

**Suliau Capel Pen-llwyn**
*Hydref*
**19** 10.00. Parch Ifan Mason Davies
**26** 2.00. Dr. Rhidian Griffiths. Bydd hon yn oedfa Ddiolchgarwch. Os dymunech gyfrannu at y Banc Bwyd yn Aberystwyth, byddwn yn hapus i dderbyn pob cyfraniad ar y diwrnod.

*Tachwedd*
**2** 5.00 Parch Judith Morris
**9** I'w drefnu
**16** 10.00 Mrs. Bronwen Morgan
**23** 10.00 Gwyn Davies
**30** 10.00 Raymond Davies

**Newydd Ddyfodiad**
Llongyfarchiadau i Mr. a Mrs. Gerald Powell ar enedigaeth ŵyr bach arall, y tro yma plentyn i Lowri ac Ash ym Mryste. Ganwyd Alfie William Walters yn gynharach yn y mis. Dymuniadau gorau i chi fel teulu.

**Dod i Oed**
Dathlodd Owen Evans, Ardwyn, ei ben blwydd yn ddiweddar yn ddeunaw oed. Llongyfarchiadau cynnes a phob dymuniad da ar y dathliad pwysig yma, gobeithio fod agoriad y tŷ yn ddiogel yn dy boced!

**Newid ardal**
Mae yn chwith meddwl ein bod yn colli M. a Mrs. Neil Laws o'r ardal, gan iddynt ymgartrefu yn ein plith nifer o flynyddoedd yn ôl bellach yn Maes y Meillion. Maent wedi penderfynu symud yn ôl i gartref eu rhieni yn Bach y Rhew, Rhydyfelin. Dymuniadau gorau i chi eich dau a Nia y ferch yn y bennod newydd yma yn eich hanes.

Er ein bod yn colli cwmni Shan a Neil, byddwn yn croesawu eu mab Dylan a'i bartner Suzanne i Maes y Meillion, dymunwn yn dda iawn i chithau eich dau wrth i chi symud o Loegr i ardal wledig hyfryd Ceredigion. Croeso cynnes i'n plith.

**Profedigaeth**
Trist iawn yw cofnodi marwolaeth Mr. Gwyn Edwards, Hyfrydle diwedd mis diwethaf. Treuliodd Gwyn y blynyddoedd diwethaf rhain ym Mhlas y Cwm yn Clarach gan nad oedd ei iechyd yn caniatàu iddo fod yn ei gartref ei hun. Yn Bow Street y treuliodd Gwyn ei blentyndod yn un o wyth o blant ac i Ysgol Gynradd Rhydypennau yr aeth am ei addysg gynnar. Ar ôl Ysgol Uwchradd bu'n gweithio fel aprentis gyda Mr. Tom Evans yn Aberystwyth. Pan gychwynwyd ar y gwaith adeiladu'r argae yn Nant-y-Moch ymunodd â'r cwmni Cementation a bu'n gweithio iddynt am sawl blwyddyn. Symud ymlaen wedyn at gwmni'r post ac fel yr oedd yn wybyddus yr adeg honno G.P.O. Yma y bu hyd nes y daeth yn amser ymddeol.

Tua 56 mlynedd yn ôl daeth ef a'i briod Anne i gadw swyddfa'r post yn Capel Bangor a threulio 11 mlynedd wrth y gwaith yn fawr eu parch gan y plwyfolion. Anne yng ngofal y swyddfa a Gwyn yn helpu o dro i dro. Ganwyd y tri phlentyn ieuengaf yma yn y llythyrdy, ond cafodd yr hynaf ei eni yn Clarach cyn iddynt symud.

Rhentu Mans Pen-llwyn am rai blynyddoedd wedi hynny hyd nes i Hyfrydle, eu cartref presennol, gael ei adeiladu. Roedd personoliaeth hyfryd Gwyn a'i hiwmor iach yn denu ffrindiau o bob cyfeiriad ato, hefyd ei gymwynasgarwch a'i barodrwydd i gynnig help llaw pan bo angen.

Cydymdeimlwn yn fawr, fel ardal, ag Anne, ei briod hawddgar, ei blant, Paul, Richard, Valerie a Susan a'u teuluoedd hwythau yn eu profedigaeth o golli priod, tad, tad-cu a hen-dadcu annwyl dros ben.

## Ysgol **Penweddig**



**Yr Ŵyl Gerdd Dant ym Mhenweddig – cais am gymorth gyda stiwardio** – os oes unrhyw un ar gael i gynnig awr neu ddwy o help ar ddiwrnod yr Ŵyl Gerdd Dant ar ddydd Sadwrn, Tachwedd 8fed yna cysylltwch â'r ysgol. Mi fydd angen cymorth gyda'r te / coffi a'r stondin gacennau!

**Derbyn rhodd gan Ann Ffrancon er cof am y diweddar Athro Geraint H Jenkins o Flaen-plwyf** – roedd hi'n hyfryd i dderbyn darn o waith celf rhagorol gan Ann Ffrancon er cof am ei diweddar ŵr. Mae'r gwaith celf yn dynodi llinell amser ar gyfer rhai o brif ddigwyddiadau hanesyddol Cymru. Mi fydd yr ysgol yn arddangos y gwaith mewn lle amlwg yn yr ysgol er mwyn hyrwyddo hanes ein gwlad.

**Diwrnod Ieithoedd Modern** – diolch i bawb fu'n trefnu'r gweithgareddau ar gyfer dathlu diwrnod Ieithoedd modern. Roedd y neuadd yn ferw gwyllt gyda'r holl weithgarwch hwyliog.


**Ymweliad Elin Jones**
Pleser oedd cael croesawu Elin Jones AS i'r ysgol er mwyn i'r Chweched Ddosbarth gael cyfle i ofyn cwestiynau iddi am amrywiaeth o bynciau. Cawsom drafodaeth ddifyr iawn am bynciau llosg megis dyfodol yr iaith Gymraeg, polisiau Net Sero ac effaith technoleg ar gymdeithas. Mi roedd hi'n fraint i ni fel Swyddogion i allu estyn ein diolch iddi am wneud yr ymdrech i ddod i Benweddig.





**ADOLYGIAD**

Medi Jones-Jackson. *Am Gymro*.
Y Lolfa 48t. £7.99




Beth ddylech chi fyth wneud? Wel, beirniadu llyfr yn ôl y clawr yn dyfe? Ond mae'n anodd iawn peidio gyda llyfr *Am Gymro* gan Medi Jones-Jackson. Mae'r clawr gan Telor Gwyn (sy'n hanu o Geredigion wrth gwrs!) yn fawr ac yn lliwgar ac mae'r dyluniadau gwych yn eich denu'n syth.

Llyfr am 13 Cymro ysbrydoledig yw *Am Gymro*, gan awdures sy'n wreiddiol o Lanrwst ond sydd bellach yn byw yn Bow Street. Mae yma rai Cymry adnabyddus fel Geraint Thomas a Dafydd Iwan ac, i mi beth bynnag, rai llai adnabyddus fel Billy Boston.

Yr hyn sy'n taro rhywun yn syth yw bod y Cymry yn y gyfrol yn perthyn i amrywiaeth eang o feysydd – o'r byd chwaraeon i'r celfyddydau, gwleidyddiaeth, meddygaeth, llenyddiaeth a mwy.

Er mai llyfr i blant yw hwn yn y bôn, mae'n gyfrol wych i oedolion hefyd. Fe ddysgais i lawer am yr 13 Cymro gan gynnwys ffeithiau newydd am y rheini oedd eisoes yn adnabyddus yn ogystal â dysgu am bobl hollol newydd. Doeddwn i heb glywed am Dr Subrahmanyam Ganesh er enghraifft, ond waw, am ddyn arbennig!

**Gwobr BAFTA:** fis Medi eleni, cafwyd ei ddatgelu bod Gwyneth Keyworth – cyn ddisgybl o Benweddig, ac yn wreddiol o Bow Street – wedi cael ei henwebu ar gyfer gwobr BAFTA Cymru 2025. Roedd hyn am ei rôl yn y rhaglen *Lost Boys* a *Fairies*. Efallai eich bod wedi ei gweld hefyd yn chwarae rhan y ditectif yn *Death Valley* yn ddiweddar.

**Gadael i brifysgolion:** braf oedd clywed bod cyn ddisgyblion a adawodd Penweddig eleni wedi cael lle mewn prifysgolion blaenllaw. Llongyfarchiadau mawr i bawb o dalgylch y Tincer. *Adroddiad i'r Tincer gan Elin Williams, Blwyddyn 13*

**Chwaraeon** – mae ymateb rhagorol wedi bod i'r timau chwaraeon sydd wedi bod yn cynrychioli Penweddig yn ystod y tymor newydd. Cafwyd canlyniadau da iawn yn y gêmau pob nos Fercher yn ystod mis Medi a Hydref. Diolch yn fawr iawn i bawb fu'n trefnu ac yn hyfforddi ac i'r disgyblion am eu brwdfrydedd a'u hymdrechion clodwiw.



Tîm hŷn



Tîm hŷn merched pêl-droed



Llongyfarchiadau i Arron Bishop, Dylan Howells, Ellis Roberts, Theo Roberts a Jac Woodland sy'n aelodau o garfan Pêl-droed Ceredigion Dan 15 eleni, pob lwc bois.

Yn yr un modd â'r clawr, mae delweddau deinamig Telor yn parhau drwy'r tudalennau gyda lluniau o'r bobl eu hunain a llawer mwy. Nid penodau traddodiadol sydd yma, ond tudalennau llawn pytiau hwyliog, diddorol. Ydyn, ry'n ni'n cael hanes yr unigolion ar ffurf paragraffau traddodiadol, ond ar bob tudalen cawn hefyd wybodaeth ychwanegol dan benawdau fel 'Wyddost ti?' a ffeithiau hawdd-eu-darllen ar ffurf pwyntiau bwled. Cawn hyd yn oed godau QR sydd, o'u sganio, yn dangos clipiau fideo o'r unigolion ar adegau pwysig yn eu bywydau. Yna, tua diwedd y llyfr mae 'na bosau, croeseiriau, cwis, cyfle i dynnu llun fel Kyffin Williams a gorffen stori i T.Llew Jones. Gyda'r gaeaf o'n blaenau a'r tywydd yn troi, bydd y llyfr hwn yn siŵr o gadw'r plant (a'r oedolion) yn ddiddan am amser.

Fe sylwch mae'n siŵr mai 13 **Cymro** sydd yma – ie, 13 dyn. Ond na phoener ferched; dilyniant yw'r gyfrol hon i ddwy gyfrol arall gan Medi Jones-Jackson sef *Genod Gwych* a *Merched Medrus* 1 a 2. Gan ddilyn yr un patrwm ag *Am Gymro,* mae'r rhain yn sôn am arwresau ein cenedl mewn modd sy'n dal y dychymyg.

Yn oes y 'dylanwadwyr' ar-lein, a 'sêr' youtube, mae'r gyfrol hon yn dangos bod ganddon ni sêr dylanwadol go iawn yma yng Nghymru, a'r gobaith yw y bydd ein plant yn cael eu hysbrydoli gan yr 13 Cymro arbennig yma.

**Sara Mitchell**




BRIDGE HOUSE CLEARANCE

Gardd neu Sied – Gwaredu Ysbwriel
Cartrefi a Busnesau
Trwydded i Gludo Gwastraff
Gwerthu eich ty? Gallwn ei glirio
Yswiriant llawn, Pris am ddim

f 07792457816/01974 261758

# Ysgol **Rhydypennau**

**Ymweliadau**
I gyd fynd gyda thema'r tymor, aeth plant blynyddoedd 3 a 4 i warchodfa natur Ynys-hir. Yn ystod yr ymweliad bu'r plant yn arsylwi ar gynefinoedd naturiol yr ardal gan weld llwyth o greaduriaid a bywyd gwyllt yn y broses. Cafodd y plant lwyth o brofiadau difyr iawn. Diolch i Jenny Dingle a chriw'r warchodfa am gydlynu'r ymweliad mor hwylus.

Mi fuodd plant blynyddoedd 1 a 2 ar daith gerdded gan gerdded o Gaffi Pennau ac i lawr i'r orsaf ar waelod y pentref. Synnodd pawb faint o lefydd diddorol a busnesau lleol sydd ar stepen ein drws!

**Trawsgwlad**
Da iawn i'r 88 o blant blynyddoedd 3, 4, 5 a 6 lwyddodd i gwblhau cwrs Trawsgwlad y cylch eleni. Llongyfarchiadau mawr i'r canlynol am orffen yn y deg cyntaf; Leonardo, Mia, Bobi Jo (Blwyddyn 5); Steffan, Macey, Layla, Leusa (Blwyddyn 4) a Rhys, Greta a Morgan (Blwyddyn 3) Campus!

**Hoci**
Mae cynghrair hoci'r cylch wedi ailgychwyn. Mae tri thîm gan yr ysgol sy'n chwarae yn erbyn ysgolion eraill y cylch pob nos Iau ar faes astro Canolfan Hamdden Plas-crug. Pob lwc iddynt am weddill y tymor.

**Llysgenhadon Efydd**
Er mwyn hyrwyddo iechyd a ffitrwydd yng Ngheredigion mae Llysgenhadon Efydd wedi eu penodi ar draws ysgolion y Sir. Yn ysgol Rhydypennau, penodwyd Maddie a Caden o flwyddyn 6 a Cadi a Bobi Jo o flwyddyn 5 .Y mae'r pedwar ohonynt wedi derbyn hyfforddiant gan aelodau criw 'Ceredigion Actif' y Sir ac y maent bellach yn trefnu sesiynau iechyd a ffitrwydd yn ein clwb cyn ysgol o chwarter wedi wyth tan chwarter i naw bob bore.

**Croeso**
Croeso i Miri a Nannon sydd wedi ymuno â staff yr ysgol ar ddechrau'r tymor hwn. Maent wedi setlo'n wych ac yn gymorth mawr i'r plant a'r staff yn nosbarthiadau'r Cyfnod Sylfaen.

**Diolchgarwch**
Eleni, mi fyddwn yn cynnal ein gwasanaeth Diolchgarwch yn Eglwys Llanfihangel Genau'r-glyn ar y 22ain o Hydref am hanner awr wedi un y pnawn. Croeso i rieni a ffrindiau'r ysgol ymuno â ni.


Ymweliad Gorsaf y Pentref


Ymweliad Caffi Pennau.


Mwynhau profiadau gwarchodfa Natur Ynys-hir.


Mwynhau gemau hoci nos Iau


Llysgenhadon Efydd yr ysgol


Llwyddiant trawsgwlad

**Am fwy o wybodaeth a llwyth o luniau: http://rhydypennau.ceredigion.sch.uk/ @YGRhydypennau-dilynwch ni ar drydar.**

# Ysgol **Craig yr Wylfa**

**Bore coffi Macmillan**

Ar fore dydd Mawrth y 30ain o Fedi, cynhaliwyd bore coffi Macmillan i'r gymuned er mwyn codi arian i'r elusen. Buodd yn fore llwyddiannus ble croesawon wynebau cyfarwydd i'r ysgol. Cawsom wledd o gacennau, a phaned, clonc ynghyd â pherfformiad o ganeuon i'r ymwelwyr. Yn gyfan gwbl, codwyd dros £120 i'r elusen.










**Arddangosfa Celf Star of the Sea**

Roedd plant yr ysgol yn llawn cyffro ar ôl clywed bod eu gwaith celf yn mynd i gael ei ddathlu yn arddangosfa celf gymunedol 'Star of the Sea' Borth. Derbyniodd y plant y gair 'Storm' fel sbardun, a buont yn brysur iawn yn cwblhau gwaith o safon







**Enwi dosbarthiadau**

Er mwyn adeiladu ymdeimlad o berthyn at ein cymuned, penderfynodd ein plant eu bod eisiau rhoi enwau i ddosbarthiadau'r ysgol sydd yn cysylltu â'r ardal leol. Ar ôl tipyn o drafod a phleidleisio, penderfynwyd ar yr enw 'Leri' i'r dosbarth blynyddoedd iau ac ar yr enw 'Dyfi' i ddosbarth blynyddoedd 3 i 6, wedi eu dylanwadu gan afonydd lleol.

**Traws gwlad**

Buodd plant dosbarth Dyfi yn cystadlu yn frwd yng nghystadleuaeth traws gwlad cylch Aberystwyth yn Ysgol Gymraeg Aberystwyth. Mwynhaodd y plant mas draw, wrth deimlo yn falch o'r ymdrech a dyfalbarhad arddangoswyd.

**Dosbarth Leri**

I ddechrau'r tymor, rydyn ni wedi bod yn dysgu am ein hunain ac am ein hardal. Mae'r plant wedi mwynhau sesiynau ysgol y goedwig lle maen nhw wedi cael y cyfle i fynd ar helfa Hydref o amgylch y Borth, creu hunan bortread allan o ddeunyddiau naturiol, ac wedi dechrau edrych ar sut mae anifeiliaid yn ymateb i newid tymhorau wrth i ni adeiladu nythod draenog. Rydyn ni wedi gweithio gyda'r 'Prosiect Cawl' ac wedi casglu'r llysiau rydyn ni wedi tyfu yn barod i goginio cawl moron!

**Dosbarth Dyfi**

Yn nosbarth Dyfi yn ystod wythnosau cyntaf y flwyddyn, mae'r plant wedi ymgartrefu yn ôl yn yr ysgol, ac wedi bod yn dangos brwdfrydedd yn eu gwaith. Rydym wedi bod yn canolbwyntio ar waith disgrifio er mwyn paratoi i ysgrifennu hunan bortread, ac wedi bod yn ffocysu ar sgiliau sylfaenol adio, tynnu a lluosi yn ein gwersi mathemateg. Thema'r dosbarth y tymor yma yw 'Ein Hardal Leol' ac mae'r plant wedi bod yn cydgynllunio ein gwaith wrth ofyn cwestiynau am y filltir sgwâr.







# Ysgol Gymunedol **Penrhyn-coch**



**Clwb Rhedeg Ysgol Penrhyn-coch**
Wrth baratoi ar gyfer cystadleuaeth Trawsgwlad cylch Aberystwyth, trefnodd y llysgenhadon efydd sesiynau ymarfer ddwywaith yr wythnos. Roedd llawer o fwrlwm, gyda hyd yn oed aelodau staff yn ymuno! Llongyfarchiadau arbennig i Moli a Vinnie am eu hymroddiad.

**Taith Tractorau**
Cafwyd bore hydrefol hyfryd ar gyfer arddangosfa o dractorau. Diolch enfawr i Lynwen Jenkins am drefnu'r digwyddiad, ac i Merfyn Hughes am dywys y daith yn absenoldeb Alun Trawsnant – dymunwn wellhad buan iddo.

**Dosbarth Syfydrin**
Mae'r plant wedi bod yn brysur yn dylunio a rasio ceir fel rhan o'r thema "Peiriannau Syml". Diolch i'r Dewiniaid Digidol – Alfie, Luna a Corey – am arwain gwers ar greu crys-T ar Adobe Express. Mae'r sesiynau cerddoriaeth hefyd wedi dechrau, gan roi cyfle i arbrofi gyda offerynnau.

**Dosbarth Drosogol**
Blwyddyn 1 gyda Miss Davenport wedi cael dechreuad llawn hwyl. Uchafbwynt hyd yn hyn oedd creu cacennau reis crispi gyda siocled Masnach Deg ar gyfer picnic ysgol. Mae'r plant hefyd wedi bod yn adeiladu ceir allan o gardfwrdd a photeli llaeth!








*Cyfarwyddwyr Angladdau*
***C. T. Evans***

***Perchnogion : Gwyn & Janet Evans***
***Brongenau, Llandre, Aberystwyth SY24 5BS***

*Gwasanaeth Angladdol Teuluol Cyflawn.*
*Wedi ei arwain yn Bersonol gyda Urddas.*
*Capel Gorffwys Preifat,Gwasanaeth Ddydd a Nôs.*

***Ffôn 01970 820013***
***ebost : gwyn@ ct-evans.com***

ADWEITHEG
**Bethan Ifan**
Aberystwyth
**07375422608**
Tocynnau rhodd ar gael

COPI CYWIR
GWAITH PRYDLON A CHYWIR
PRISIAU CYSTADLEUOL
IONA BAILEY
PEN-Y-BRYN
SWYDDFFYNNON
YSTRAD MEURIG
01974 831580

**Hoffech chi hysbysebu eich busnes yma?**

# Bywyd Ysgol – Ardal Penrhyn-coch a Phen-llwyn

**Ar y Cyd**
Mae tymor yr hydref wedi dechrau'n llawn bwrlwm yn ysgol Penrhyn-coch ac Ysgol Pen-llwyn, gyda llu o weithgareddau a phrofiadau cyffrous i'n disgyblion.

**Enwau dosbarthiadau**
Cafwyd y syniad eleni o enwi dosbarthiadau ar draws y ddwy ysgol yn seiliedig ar dirffurfiau lleol. Diolch i Angharad Fychan am ei hawgrymiadau. Ein dosbarthiadau yw Darren, Drosgol, Syfydrin, Trafle a Brogynin ym Mhenrhyn-coch a Llywernog a Disgwylfa ym Mhen-llwyn.

**Wythnos Masnach Deg**
Bu'r ysgolion yn dathlu Wythnos Masnach Deg gyda gweithgareddau trawsgwricwlaidd. Aeth pob dosbarth ati i ddewis cynnyrch Masnach Deg, coginio a phobi ar gyfer picnic ysgol. Roedd y cynnyrch yn amrywio o smwddis a lemonêd i fara brith a brownies siocled. Diolch i'r garej a'r swyddfa bost leol am eu cefnogaeth!

**Sut mae peirannau syml yn gwneud bywyd bob dydd yn haws?**
Mae ein cwestiwn ymholi ar gyfer y tymor yn un cyffrous gyda disgyblion ar draws yr ysgol yn arbrofi gyda llethrau, olwynion, pwli, sgriw, cyllell a liferi i weld effaith y peiriannau syml yma ar ein bywydau bob dydd. Mae'r disgyblion wedi mwynhau arbrofi ac ail-greu'r peiriannau yma.

**Hoci Ysgolion yn ôl!**
Mae'n braf gweld cychwyn newydd i gynghrair hoci ysgolion ar nos Iau. Roedd y sgiliau'n disgleirio wrth i'r disgyblion ddechrau'r flwyddyn gyda brwdfrydedd a dawn.

**Rygbi Tag**
Bu sesiynau rygbi tag yn boblogaidd iawn, gan roi cyfle i blant fwynhau chwaraeon tîm a datblygu sgiliau Newydd, gan hefyd gael y cyfle i gystadlu yn nhwrnament rygbi tag yr Urdd ar gyfer plant blwyddyn 3 a 4.



**Trawsgwlad – Canlyniadau Ardderchog**
Bu bron pob disgybl Cyfnod Allweddol 2 yn cymryd rhan yn y trawsgwlad. Llongyfarchiadau i:

- Moli Tooze – 1af Merched Blwyddyn 6
- Ania Hughes – 4ydd Merched Blwyddyn 3
- Oscar Makaruk – 3ydd Bechgyn Blwyddyn 3
- Nimah Kelly – 7fed Merched Blwyddyn 4

**Blwyddyn 6 – Diwrnod Pontio**
Bu Blwyddyn 6 yn Ysgol Penweddig ar gyfer diwrnod pontio, gan fwynhau gweithgareddau amrywiol a phrofi bywyd ysgol uwchradd. Roedd cinio yn y ffreutur yn uchafbwynt!

**Sbaeneg gyda Lleucu Haf**
Bu sawl dosbarth yn dysgu Sbaeneg gyda Lleucu Haf – o ffrwythau i siopa a dweud yr amser. Roedd dawnsio a chwerthin yn rhan o'r profiad. Diolch i e-sgol am drefnu!

## Ysgol **Pen-llwyn**

**Cynhaeaf**
Bu gwledd unwaith eto eleni yn dod o'r cynnyrch tyfom yn y Polytunnel. Mwynhaodd dosbarth Llywernog gawl tomato cartref yr oeddynt wedi ei goginio o gynnyrch yr ardd.

**Pen-blwydd Hapus i'r WI**
Braf oedd ymuno gyda'r gangen leol o Sefydliad y Merched i ddathlu eu pen-blwydd arbennig trwy gyfrannu Gwaith celf a chrefft disgyblion i'w harddangos yn Neuadd Pen-llwyn, Capel Bangor. Diolch iddynt am y cyfle i arddangos a dathlu gwaith disgyblion.




y lolfa ARGRAFFWYR A CHYHOEDDWYR

Cyfle gwych yng nghalon gwasg amlycaf Cymru

**Rheolydd Cynhyrchu**

yn eisiau i lywio gwaith trwy'r wasg. Swydd amrywiol a diddorol mewn cwmni blaengar, Cymraeg. Manylion llawn gan Garmon Gruffudd ar garmon@ylolfa.com. Ceisiadau i law erbyn Tachwedd 3ydd.

Y Lolfa Cyf. Talybont Ceredigion SY24 5HE
**01970 832 304** | ylolfa@ylolfa.com
**www.ylolfa.com**

# Tasg y Tincer

Diolch i'r pedair fu'n lliwio mor brysur mis diwetha: Anest Emlyn, Penrhyn-coch; Cadi Marged Mitchell, Capel Dewi; Lowri Jenkins, y Borth, ac Eve Thomas, Penrhyn-coch. Roedd eich lluniau'n arbennig. Am mai ti, Cadi, wnaeth gyfri'n gywir – roedd 26 afal yn y llun – ti sy'n cael y wobr y tro hwn. Hwrê!



Cadi

Mae bron iawn yn Nos Galan Gaeaf! Fyddwch chi'n cerfio siâp wyneb ar bwmpen, ac yn gosod cannwyll ynddi? Ganrifoedd yn ôl, byddai pobl yn yr Alban ac yn Iwerddon yn cerfio siapiau ar erfin (turnips) i gadw ysbrydion drwg draw o'r tŷ ar ddechrau'r gaeaf – ond mae'r croen yn drwchus felly mae'n anodd! Byddai pobl yma yng Nghymru yn bwyta 'stwmp naw rhyw' – am enw rhyfedd! Math o stwnsh llysiau oedd hwn, gyda llaeth, halen a phapur. Iym! Beth am 'twco afalau' gyda'ch ffrindiau – rhoi afalau mewn bwced o ddŵr, yna ceisio dal un yn eich ceg ... heb ddefnyddio eich dwylo. Peidiwch â gwlychu'n stecs!





**Enw**

**Cyfeiriad**

**Ysgol**

**Rhif ffôn** **Oed**

Mae'r bwmpen a'r ffrwythau yn y fasged yn edrych yn flasus, ond mae angen lliwio gofalus. Anfonwch eich gwaith at y cyfeiriad arferol: Tasg y Tincer, 3 Brynmeillion, Bow Street, Ceredigion SY24 5BP erbyn 11 Tachwedd. Ta ta tan toc!

ISSN 0963-925X

9 770963 925009

*Rhif 482 | Hydref 2025*